

Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022



ADRODDIAD ADOLYGU CDLI

Medi 2017

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdll Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, yr Ail Lawr, Adeilad Llyfrgell Llandudno, Mostyn Street, Llandudno LL30 2RP neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Os hoffech chi gael dyfyniad neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu ar unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575461.

CYNNWYS

Tudalen

1	Cyflwyniad.....	4
2	Cefndir	5
3.	Gweledigaeth ac Amcanion.....	6
4	Strategaeth CDLI.....	8
5.	Cyflwyniad i'r Polisiâu	13
5.1	Egwyddorion Datblygu	14
5.2	Tai	15
5.3	Cyflogaeth.....	19
5.4	Twristiaeth	23
5.5	Cyfleusterau Cymunedol.....	25
5.6	Yr Amgylchedd Naturiol	27
5.7	Treftadaeth Ddiwylliannol.....	30
5.8	Cludiant Cynaliadwy	33
5.9	Mwynau a Gwastraff	34
6	Arfarniad o Gynaliadwyedd	37
7	Cynlluniau ar y Cyd	39
8	Casgliad.....	40
	Atodiad 1 – AMB Crynodeb Perfformiad.....	41
	Atodiad 2 – Darpariaeth Dyraniadau'r CDLI	47
	Atodiad 3 – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Polisi CDLI	50
	Atodiad 4 – Rhestr Grynhoi o'r Ymchwil Pellach Angenrheidiol.....	54

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Conwy sydd wedi'i fabwysiadu'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y Fwrdeistref Sirol a'i bolisiau i'w cyflwyno dros oes pymtheng mlynedd y cynllun rhwng 2007 a 2022. Cafodd y CDLI ei fabwysiadu ar 23 Hydref 2013 ac, yn unol â gofynion statudol, mae wedi'i fonitro'n flynyddol ar ôl hynny ac mae dau Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) wedi'u cyhoeddi hyd yma. Mae pob AMB yn asesu i ba raddau y mae strategaeth, polisiau a safleoedd datblygu'r CDLI yn cael eu cyflawni.
- 1.2 Mae bod â CDLI cyfredol yn rhan sylfaenol o'r system sy'n dilyn cynllun ac, yn unol ag Adran 69 yn Neddf 2004, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol gychwyn ar adolygiad o'u CDLI cyn pen pedair blynedd ers ei fabwysiadu; ynghynt os yw canlyniadau'r AMB yn dangos bod angen.
- 1.3 Nododd yr AMB ar gyfer cyfnod 2014-15 rai meysydd yn y polisi a oedd wedi methu â chyrraedd y targedau yn ystod y cyfnod monitro, a faint o dir sydd ar gael ar gyfer tai'n un o'r rhai mwyaf sylweddol. Fodd bynnag, gan mai'r AMB cyntaf yn unig oedd hwn ers mabwysiadu'r CDLI, credid bod angen mwy o wybodaeth cyn penderfynu adolygu'r CDLI. Cafodd yr ail AMB, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2016, fod nifer o bryderon mewn perthynas â chyflwyno polisiau'r CDLI; yn benodol o ran darparu tir ar gyfer tai newydd a chyflogaeth. Roedd hyn yn cadarnhau bod rhai o'r tueddiadau a nodwyd yn yr AMB cyntaf yn parhau ac fe gynigiwyd cynnal adolygiad buan.
- 1.4 Yr Adroddiad Adolygu hwn yw'r cam cyntaf tuag at lunio Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ar gyfer Conwy, a fydd yn mynd i'r afael â'r materion sydd wedi'u nodi hyd yma. Nid yw'r adroddiad hwn yn llunio rhestr gynhwysfawr o'r newidiadau angenrheidiol; gall y dystiolaeth a gesglir yn ystod y broses adolygu nodi mwy o ddiwygiadau y bydd angen eu cynnwys yn y CDLIN.
- 1.5 Bydd yr Adroddiad Adolygu hwn yn:
 - crynhoi canfyddiadau'r ddau Adroddiad Monitro Blynyddol hyd yma,
 - manylu ar y pryderon ynglŷn â chyflwyno'r polisi sydd wedi arwain at adolygu'r CDLI, gan ddadansoddi'r pynciau hyn ymhellach,
 - nodi meysydd eraill y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn credu bod angen eu hadolygu oherwydd tystiolaeth arall sydd wedi'i chasglu ers mabwysiadu'r CDLI, er eu bod wedi cyrraedd targedau'r dangosyddion,
 - nodi pa ymchwil pellach sydd ei angen i gasglu gwybodaeth ar gyfer Adolygiad y CDLI,
 - dangos sut mae dull yr Awdurdod Cynllunio Lleol o adolygu'r CDLI yn gysylltiedig â Chynllun Lles Lleol Conwy a CDLIau awdurdodau cyfagos,
 - nodi sut mae newidiadau cyd-destunol i bolisiau a chanllawiau cenedlaethol yn effeithio ar y CDLI wrth fynd ymlaen,
 - amlinellu'r dull arfaethedig o gyflawni CDLIN Conwy.

2 Cefndir

- 2.1 Mae Rheoliadau Llywodraeth Cymru, Llawlyfr y CDLI a Chanllawiau Cynllunio Cymru yn amlinellu'r broses ar gyfer paratoi a monitro parhaus CDLI. Yn ychwanegol at Adroddiadau Monitro Blyneddol (AMR), dylai Awdurdod gynnal adolygiad mwy trylwyr o'i CDLI o leiaf unwaith pob 4 blynedd yn dilyn mabwysiadu, o bosibl yn gynharach yn amodol ar ganfyddiadau AMR. Rhaid i gynhyrchu CDLI wedi'i ddiwygio neu un newydd gael ei ragflaenu gan adroddiad Adolygu CDLI sy'n nodi'r rhesymau a thystiolaeth am gynnig newidiadau i'r Cynllun. Gallai rhesymau o'r fath gynnwys polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol, cyd-destun lleol a phryderon posibl o ganfyddiadau'r AMR o ran effeithiolrwydd polisi, cyfraddau cynnydd a gweithredu. Mae'r Adroddiad Adolygiad hwn yn amlygu graddau'r newidiadau gofynnol i'r CDLI a'r weithdrefn y mae angen ei dilyn.
- 2.2 Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 - 2022 ei fabwysiadu ym mis Hydref 2013, ac felly byddai angen i'r Cyngor ddechrau cynnal yr adolygiad yn 2017. Roedd y dangosyddion yn yr ail AMR (Hydref 2016) yn dangos bod heriau a nodwyd yn yr AMR cyntaf yn parhau ac yn cynyddu. Mae'r diffyg o ran y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai wedi cynyddu ac mae darpariaeth tir cyflogaeth yn yr ardaloedd trefol a gwledig yn sylweddol is na'r targed.
- 2.3 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus fel CBSC ystyried nid yn unig anghenion presennol cymunedau lleol ond hefyd sut gallai eu penderfyniadau effeithio ar bobl yn y dyfodol. Mae dyletswydd statudol ar CBSC i weithredu egwyddorion datblygu cynaliadwy ym mhob proses gwneud penderfyniadau. Felly, bydd pob elfen sydd wedi'i chynnwys yn y CDLI newydd yn destun asesiad o effaith ar les ac, os oes angen, yn destun diwygiadau yn unol ag argymhellion a ddaeth o'r asesiad.
- 2.4 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylai elfennau strategol CDLI, fel tai, cyflogaeth, cludiant, darpariaeth sipsiwn a theithwyr, mwynau a gwastraff gael eu codi ar gyfer trafodaeth a chasgliadau mewn Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Caiff ei ddadlau y bydd hyn yn arwain at dull cyson, effeithiol ac effeithlon, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau strategol, gyda phenderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud unwaith yn hytrach na sawl tro. Mae LIC hefyd yn credu y dylid paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol mewn ardaloedd lle mae materion o arwyddocâd mwy na lleol ac felly nodi'r canolbwynt ar gyfer tri Chynllun Datblygu Strategol ar draws Cymru gan gynnwys Coridor yr A55 yng Ngogledd Cymru.
- 2.5 Yn y dyfodol bydd gofyn i CDLI gydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Strategol perthnasol. Pan fo Cynllun Datblygu Strategol yn cynnwys ardal CDLI, dylid rhesymoli'r CDLI fel ei fod yn canolbwyntio ar faterion lleol yn unig, yn enwedig dyraniadau sy'n benodol i safle, yn unol â graddfa a lleoliad twf a nodir yn y Cynllun Datblygu Strategol. Bydd materion fel lefel gyffredinol tai, cyflogaeth, darpariaeth manwerthu a safleoedd strategol eisoes wedi'u trin yn y Cynllun Datblygu Strategol ac nid oes angen eu hailadrodd.
- 2.6 Mae'n debygol iawn y bydd yr adolygiad o'r CDLI yn rhagflaenu paratoi unrhyw Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer coridor yr A55 ond byddai'n cael goblygiadau sylweddol o bosibl ar gyfer swyddogaeth a chynnwys Cynllun Datblygu Lleol newydd Conwy.

3. Gweledigaeth ac Amcanion

3.1 Mae gweledigaeth y CDLI yn nodi'r sefyllfa yr ydym am weld Conwy ynnddi yn y dyfodol ac mae'n hanfodol ei bod yn parhau'n berthnasol i anghenion ac uchelgeisiau lleol dros gyfnod y CDLI diwygiedig. Datblygwyd gweledigaeth y CDLI drwy bartneriaeth ac roedd ystod o gynlluniau a strategaethau'n cyfrannu gwybodaeth ati. Roedd y ddwy brif strategaeth a ddarparodd wybodaeth ar gyfer Gweledigaeth y CDLI wedi'u crynhoi yn – Strategaeth Gymunedol 'Un Conwy' a Chynllun Corfforaethol Conwy, ond nid yw'r ddwy ddogfen yn gyfredol bellach. Bydd Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (a fydd yn cynnwys y datganiad lles) wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol erbyn 19 Hydref 2017. Yn dilyn hynny, bydd Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei gymeradwyo erbyn 31 Mawrth 2018. Bydd y strategaethau hyn yn ffurfio sail dystiolaeth a fydd, yn ei thro, yn darparu gwybodaeth ar gyfer adolygiad o weledigaeth ac amcanion y CDLI.

3.2 Gweledigaeth fabwysiedig y CDLI yw:

"Erbyn 2022, bydd cymunedau Conwy'n fwy cynaliadwy, yn cynnig gwell ansawdd bywyd ac yn cael eu cefnogi gan strwythur oedran sy'n fwy cytbwys.

Bydd anghenion datblygu o ganlyniad i newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol a lleihau lefelau all-gymudo wedi'u diwallu. Bydd anghenion yr ardal mewn perthynas â thai'n cael eu diwallu'n well, a bydd yn haws cael tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Bydd ein cymunedau wedi'u haddysgu a bydd ganddynt sgiliau a chyfleoedd gwell i gael swyddi o ansawdd uwch a chyflogau uwch, yn enwedig yn y diwydiannau gwerth uwch a'r sectorau twristiaeth trwy gydol y flwyddyn, a fydd yn golygu bod Sir Conwy'n fwy llewyrchus a ffyniannus. Trwy hyrwyddo Ardal Strategaeth Datblygu Trefol, bydd aneddiadau cynaliadwy a hygyrch y llain arfordirol drefol, sef Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Chyffordd Llandudno, wedi datblygu i fod yn ganolbwynt economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Ardal y Cynllun. Bydd y canolbwyntiau strategol a'r ardaloedd adfywio ar hyd y coridor ffyrdd a rheilffyrdd allweddol yn gryfach o ganlyniad i hynny. Trwy Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig, bydd cymeriad arbennig yr ardaloedd gwledig fel lleoedd i fyw a gweithio ynnddynt wedi'i feithrin drwy ddarparu swyddi a gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol. O fewn y cymunedau hyn, bydd gwaith datblygu wedi cefnogi a chynnal lles tymor hir y Gymraeg.

Bydd pobl Conwy'n teimlo'n fwy diogel ac iach, o ganlyniad i ddatblygiadau ansawdd uwch, hygyrch, sydd wedi'u dylunio'n dda, yn defnyddio ynni'n effeithiol ac sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Bydd mannau hamdden a mannau agored hanfodol wedi'u diogelu a'u gwella a bydd Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi meithrin hunaniaeth i gymunedau ac aneddiadau.

Bydd rhwydwaith cludiant cyhoeddus, cerdded a beicio gwell ar waith a bydd cyfnewidfa cludiant cyhoeddus gynaliadwy wedi'i chwblhau yn Llandudno a Bae Colwyn. Bydd cyflenwad o agregau ar gyfer y tymor hir a bydd cynhyrchu ynni a lleihau gwastraff yn cael eu hyrwyddo."


3.3 Ystyrir bod gweledigaeth y CDLI yn dal i fod yn lled-berthnasol, ond mae angen mwy o waith i ddeall a ddylid gwneud unrhyw newidiadau neu ychwanegu ati yn sgil sail o dystiolaeth allweddol fel amcangyfrif o'r boblogaeth, tir sydd ar gael ar gyfer tai, cyfleoedd ar gyfer datblygiadau economaidd a chynlluniau strategol newydd sydd ar ddod fel Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r Cynllun Lles.

- 3.4 Lluniwyd nifer o amcanion gofodol fel ffordd o gyflawni'r weledigaeth a mynd i'r afael â materion sydd wedi'u blaenoriaethu o fewn ardal y cynllun. Mae'r 16 o amcanion strategol, sy'n cwmpasu materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, yn gyffredinol, yn dal yn briodol ac yn cydgyfrannu at gyflawni'r rhan fwyaf o ddeilliannau blaenoriaethau'r CDLI. Fodd bynnag, ystyrir bod angen adolygiad o ganlyniad i nifer o newidiadau i'r sail dystiolaeth a'r ddeddfwriaeth ers mabwysiadu'r CDLI. Gan ddibynnu ar ganlyniad hynny, efallai y bydd angen diwygio rhywfaint i sicrhau bod yr amcanion yn fwy penodol ac yn cydnabod blaenoriaethau lleol a nodau lles allweddol.

4 Strategaeth CDLI

- 4.1 Mae strategaeth ofodol y CDLI fel y'i hamlinellir yn Adran 3 a pholisi CD/2 y CDLI, yn dosbarthu twf preswyl a chyflogaeth yn ôl hierarchaeth setliadau a'r dosbarthiad twf gofodol dewisol. Mae Papurau Cefndir BP/08: Hierarchaeth Aneiddiadau ac Aseiad Ffiniau Aneiddiadau BP/37- Adroddiad ar yr Opsiynau Dosbarthu Twf, yn disgrifio'r dystiolaeth a'r cyfiawnhad dros y strategaeth a ddewiswyd.
- 4.2 Mae'r CDLI yn berthnasol i bob rhan o Fwrdeistref Sirol Conwy sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ymdriniaeth strategol drosfwaol yn nodi dosbarthiad perthnasol twf preswyl ac economaidd rhwng ardaloedd trefol (ASDdD) a gwledig (ASDdW) y strategaeth ddatblygu. Clustnodir 85% o dwf i'r ASDdD (yr ardal arfordirol adeiledig a Llanrwst) a 15% i'r ASDdW sy'n weddill. O fewn yr ASDdD, dosberthir twf ymhellach yn unol â'r Strategaeth Hybrid fel yr eglurir yn BP/37 ac a ddangosir yn Siart 4.1 isod.

Siart 4.1: Opsiwn gofodol a ffafir – Strategaeth Hybrid



Cyflenwad

- 4.3 Mae elfen breswyl y twf hwn yn cynnwys sawl gwahanol ffynhonnell er mwy cyrraedd targed y CDLI o 6520, gan gynnwys tai a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y CDLI yn 2007, safleoedd wedi'u hymrwymo a'u clustnodi, hap-ddatblygiadau a thai gwag. Mae Tabl 4.1 yn dangos y cyflenwad tai fel y'i rhagwelwyd pan fabwysiadwyd CDLI 2013 ac mae Tabl 4.2 yn dangos y cyflenwad tai yn seiliedig ar Gydastudiaeth Tir ar Gyfer Tai 2017. Mae'n bwysig nodi fod tabl 2013 yn cymryd fod yr holl safleoedd a glustnodwyd yn y cyflenwad tir dros y 9 mlynedd ddilynol, ond yn nhabl 4.2 yr unig safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn y golofn 'clustnodwyd' yw'r rhai hynny sydd yn y cyflenwad 5 mlynedd ond nad ydynt eto wedi cael caniatâd cynllunio. Mae unrhyw safleoedd a glustnodwyd ac y cafwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer (ar wahân i'r unedau hynny sydd wedi'u cwblhau) wedi'u cynnwys yn y golofn 'caniatawyd'.

Tabl 4.1: Cyflenwad Tai CDLI 2013

		Cwblhau	Caniatâd	Ar hap	Dyraniadau	Tai gwag	CYFANSWM	%
TREFOL	Abergele, Tywyn a Bae Cinmel	143	245	95	800	116	1399	21.3%
	Conwy, Cyffordd Llandudno a Llandudno	485	424	426	305	135	1775	27.1%
	Bae Colwyn, Llandrillo-yn-Rhos a Mochdre	506	245	352	574	174	1851	28.2%
	Llanfairfechan a Phenmaenmawr	132	53	80	40	44	349	5.3%
	Llanrwst	33	0	58	200	21	312	4.8%
	Cyfanswm Trefol	1299	967	1011	1919	490	5686	86.8%
GWLEDIG	Prif Bentreffi Haen 1	28	70	43	235	8	384	5.9%
	Prif Bentreffi Haen 2	46	0	103	170	12	331	5.1%
	Pentrefi Bach	16	0	33	0	6	55	0.8%
	Pentrefannau	6	0	31	0	4	41	0.6%
	Cefn Gwlad Agored	23	0	35	0	0	58	0.9%
	Cyfanswm Gwledig	119	70	245	405	30	869	13.2%
CYFANSWM		1418	1037	1256	2324	520	6555	100.0%
Moderneiddio Ysgol							199	
CYFANSWM							6754	
Wrth gefn							522	
CYFANSWM TAI CYFFREDINOL							7276	

Tabl 4.2: Cyflenwad Tai CDLI 2017

		Cwblhau	Caniatâd	Ar hap	Dyraniadau	Tai gwag	CYFANSWM	%
TREFOL	Abergele, Tywyn a Bae Cinmel	280	243	25	266	128	942	18.3
	Conwy, Cyffordd Llandudno a Llandudno	1130	148	93	85	132	1588	30.9
	Bae Colwyn, Llandrillo-yn-Rhos a Mochdre	650	289	69	215	317	1540	29.9
	Llanfairfechan a Phenmaenmawr	178	35	15	0	48	276	5.4
	Llanrwst	50	0	17	30	27	124	2.4
	Cyfanswm Trefol	2288	715	219	596	653	4471	86.9
GWLEDIG	Prif Bentreffi Haen 1	84	91	8	165	27	375	7.3
	Prif Bentreffi Haen 2	54	0	8	67	21	150	2.9
	Pentrefi Bach	22	0	6	0	7	35	0.7
	Pentrefannau	11	0	5	0	3	19	0.4
	Cefn Gwlad Agored	48	0	25	0	21	94	1.8
	Cyfanswm Gwledig	219	91	52	232	79	673	13.1
CYFANSWM		2507	806	271	828	732	5144	100
Moderneiddio Ysgol							199	
CYFANSWM TAI CYFFREDINOL							5343	

- 4.4 Ymysg y newidiadau allweddol i'r cyflenwad tai ers 2013 mae'r cynnydd anorfod mewn datblygiadau wedi'u cwblhau oherwydd nifer yr anheddau a adeiladwyd yn y cyfamser. Un o'r newidiadau sy'n peri'r mwyaf o bryder yw'r gostyngiad arwyddocaol mewn safleoedd ar-hap. Mae hyn yn cynnwys nifer yr anheddau a ragwelir fydd yn cael eu hadeiladu ar safleoedd bychan (<10) hyd ddiwedd cyfnod y Cynllun ac mae'n seiliedig ar ddata cwblhau blaenorol. Byddai gostyngiad o oddeutu hanner i'w ddisgwyl, gan fod erbyn hyn lai o flynyddoedd ar ôl tan 2022, fodd bynnag mae'r ffigur wedi cwmpo o 1256 i 271. Mae'r rhagamcaniadau hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad a welwyd yn nifer yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd bychan ers argyfwng economaidd 2007-8. Mae manylion tai a gwblhawyd ar safleoedd bach a mawr wedi'u rhestru yn Atodiad 2 adroddiadau JHLAS a gyhoeddwyd.¹

Adolygiad o'r Strategaeth Ofodol

- 4.5 O ran y Strategaeth Ofodol, mae'r cyflenwad tai yn cyd-fynd yn fras a'r opsiwn dewisol, er bod y twf o 13.1% a ragwelwyd yn yr ASDdD ychydig yn wannach na'r targed o 15% a bennwyd yn y strategaeth. Yn yr ASDdD mae twf yn ardaloedd Conwy, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Bae Colwyn, Llanfairfechan a Phenmaenmawr wedi bod yn gryf o ran y gyfran dwf ddisgwyliedig ond nid yw'r sefyllfa gystal yn Abergele, Towyn a Bae Cinmel. Fodd bynnag mewn telerau absoliwt, mae pob ardal yn is na'r lefel sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r targedau tai perthnasol, sydd wedi arwain at ddiffyg cyflenwad tir ar gyfer tai.
- 4.6 Mae datblygu ar gyfer cyflogaeth wedi bod yn araf ledled ardal yr Awdurdod, ond yn arbennig yn yr ardal wledig. Yn ôl Adroddiad Monitro 2016 yr Awdurdod, datblygwyd 11.7ha o dir ar gyfer cyflogaeth yn yr ASDdD ers dechrau cyfnod y CDLI, ond ni ddatblygwyd unrhyw dir ar gyfer cyflogaeth yn yr ASDdW.
- 4.7 Mewn sawl rhan o'r Fwrdeistref Sirol mae'r risg o lifogydd lleol yn effeithio ar ddatblygu, fodd bynnag mewn rhai mannau mae goblygiadau hyn o ran y strategaeth ehangach yn fwy difrifol. Yn ardal Abergele, Towyn a Bae Cinmel, cafodd ardaloedd eang o dir (rhai ohonynt eisoes wedi'u dynodi fel mannau y gellid eu clustnodi ar gyfer eu datblygu yn CDLI cyhoeddus 2009) eu diystyru fel tir ar gyfer ei ddatblygu yn dilyn cyngor diweddaredig gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach). Mae safle cyflogaeth (Tir Llwyd) hefyd wedi'i effeithio a hynny ar ôl iddo gael ei ddatblygu'n rhannol a seilwaith sylweddol wedi'i osod ond heb fawr ddim gobaith y bydd caniatâd datblygu'n cael ei roi.
- 4.8 Roedd yr asesiad blaenorol o hierarchaeth a ffiniau aneddiadau (BP/8) yn seiliedig ar feini prawf cynladwyedd a oedd yn ddibynnol ar gyfleusterau cymunedol pob anheddiad a'u mynediad at gludiant. Mae Polisi CFS/6 – "Diogelu Cyfleusterau Cymunedol y tu allan i'r Ganolfan Is-ranbarthol a Chanol Trefi" wedi ymdrechu i ddefnyddio'r system gynllunio er mwyn cynorthwyo i ddiogelu cyfleusterau cymunedol ac nid yw'r sbardun mewn perthynas â'r polisi hwn wedi'i gyrraedd yn AMR 2016. Serch hynny effeithiwyd ar rai aneddiadau oherwydd colli siopau a thafarndai, cau ysgolion a newid llwybrau bysiau.

Gofynion Tai y CDLI

- 4.9 Nid oedd rhagamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru (seiliedig ar y flwyddyn 2009) yr oedd targedau twf y CDLI wedi'u seilio arnynt yn ystyried effeithiau'r argyfwng economaidd byd-eang. Defnyddiwyd cyfnod o dwf eithriadol o uchel fel sail ar gyfer y rhagamcanion a arweiniodd at y targed arfaethedig o 6520 annedd, er gwaethaf y ffaith fod effaith y dirwasgiad dilynol ar brisiau tai a'r nifer o dai a gwblhawyd yng Nghonwy yn amlwg. Roedd hwn yn darged afrealistig o ystyried cyflwr y farchnad dai yng Ngogledd Cymru. Gyda phob blwyddyn y mae CBSC wedi methu â chyrraedd y

¹ Ar gael drwy ddilyn www.conwy.gov.uk/catt

targed tai, mae'r gofyniad blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y CDLI yn cynyddu. Gwaethygyd y sefyllfa hon yn 2015 yn sgil newidiadau i TAN1 a oedd yn dileu'r dull o gyfrifo cyflenwad tir yn seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol, a oedd tan hynny wedi rhoi darlun eithaf clir o gyfrifiadau cyflenwadau tir, tra bo'r dull wedi hynny yn *'.....dynodi diffyg neu warged nad yw'n bodoli'n ymarferol'*.

- 4.10 Ym mis Chwefror 2014, bedwar mis ar ôl mabwysiadu'r CDLI, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ragamcanion aelwydydd diwygiedig yn seiliedig ar gyfrifiad 2011. Fel y rhagwelwyd, roedd y rhain yn nodi gofyniad tai sylweddol is, fodd bynnag mae wedi'i wneud yn glir drwy lythyr gan y Gweinidog (Ebrill 2014) a newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (9.2) y dylai awdurdodau cynllunio lleol leihau'r pwyslais a roddir ar ragamcanion tai Llywodraeth Cymru wrth bennu gofynion tai'r CDLI gan ei bod yn angenrheidiol hefyd rhoi sylw i sawl ystyriaeth berthnasol arall.

Casgliad

- 4.11 Fel y nodir uchod, mae sawl mater arwyddocaol wedi effeithio ar weithrediad strategaeth y CDLI ers ei mabwysiadu. Mae'n amlwg y bydd angen i'r Adolygiad o'r CDLI ailystyried graddfa a dosbarthiad y twf arfaethedig. Bydd angen asesu capasiti aneddiadau i amsugno cyflogaeth a datblygiadau preswyl ychwanegol yng ngoleuni'r dystiolaeth a fydd yn cael ei chasglu drwy'r Adolygiad.

5. Cyflwyniad i'r Polisiau


- 5.01 Pwrpas y broses fonitro yw mynd ati i adolygu a yw polisiau'r CDLI yn cael eu cyflwyno ac a yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni. Mae angen adolygu lefel y boblogaeth a'r twf yn nifer y teuluoedd y bydd y CDLI yn darparu ar eu cyfer o fewn cyfnod y cynllun diwygiedig. Mae angen ailystyried y lefel dwf y cynllunnir ar ei chyfer er mwyn sicrhau bod digon o ddatblygiadau ac, yn benodol, tai a datblygiadau economaidd yn cael eu darparu er mwyn diwallu'r angen a ddisgwylir ymysg y boblogaeth dros gyfnod y cynllun diwygiedig.
- 5.02 Felly, bydd CBSC yn ymgymryd ag adolygiad o holl bolisiau'r CDLI ar sail canfyddiadau adroddiadau monitro blynyddol blaenorol a thystiolaeth o unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol, fel newidiadau yn y cyd-destun lleol a/neu newidiadau i bolisiau neu ddeddfwriaeth cenedlaethol. Mae crynodeb yn nodi a yw polisi'n gweithredu'n effeithiol ac a oes angen newidiadau yn rhan o'r adolygiad o'r cynllun wedi'i ddarparu yn Atodiad 4. Mae polisiau sy'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan newidiadau cyd-destunol ac sy'n debygol o fod angen mwy o ddiwygiadau'n cael eu trafod yn fwy manwl isod o dan benawdau perthnasol eu pynciau.

5.1 Egwyddorion Datblygu

- 5.1.1 Mae pennod Egwyddorion Datblygu'r CDLI yn nodi nifer o bolisiau y mae'n rhaid i ddatblygwyr gadw atynt. Mae'r rhain yn cynnwys polisiau strategol sy'n ymwneud â'r strategaeth ofodol gyffredinol, sy'n debygol o newid fel rhan o adolygiad y CDLI. Bydd yn rhaid i'r newidiadau a wneir i'r polisiau hyn adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar adeg archwilio'r CDLI newydd. Mae polisi ED/2 yn nodi dosbarthiad gofodol datblygiadau, hierarchaeth aneddiadau a gofynion tai fforddiadwy. Ceir rhagor o fanylion am y materion hyn ym mhennod 4 ac o dan yr adran dai yn yr adroddiad adolygu hwn.
- 5.1.2 Mae polisiau ED/3 ac ED/4 yn darparu nifer o feini prawf ar gyfer rheoli datblygu a ddefnyddir i asesu cynigion. Mae'r rhain yn ymdrin ag ystod o faterion, gan gynnwys dylunio, mynediad, bioamrywiaeth, diogelwch a pherygl llifogydd. Er nad yw'n debygol y bydd nodau cyffredinol y polisiau hyn yn newid yn sylweddol, fel rhan o'r adolygiad mae'n bosibl y bydd angen diwygio rhai pethau gan fod blaenoriaethau datblygu yn newid a materion newydd yn codi sydd angen ystyriaeth.
- 5.1.3 Mae'r gwaith o baratoi atodlen ffioedd Ardoll Seilwaith Cymunedol Conwy ar y gweill, ond mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn destun adolygiad cenedlaethol yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio polisi ED/5 i adlewyrchu darparu rhywfaint o seilwaith drwy Ardoll Seilwaith Cymunedol yn y dyfodol. Bydd gofynion seilwaith safleoedd penodol yn parhau i gael eu bodloni drwy'r mecanweithiau presennol.
- 5.1.4 Ers mabwysiadu'r CDLI, mae'r gefnogaeth ar gyfer Cynlluniau Lleoedd wedi cynyddu ar lefel genedlaethol yn sgil y Ddeddf Gynllunio a'r newidiadau i lawlyfr CDLIau. Mae Cynllun Lleoedd arloesol Abergele yn mynd rhagddo dan y fframwaith cenedlaethol newydd. Bydd angen adolygu polisi ED/7 i sicrhau bod y polisi ac unrhyw gynllun lleoedd yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol newydd.
- 5.1.5 Lluniwyd Prif Gynllun Bae Colwyn yn wreiddiol yn 2009/10 yn dilyn comisiwn ymgynghoriaeth dan arweiniad DPP Shape, gydag Arc 4, Keppie Massie a Martin Stockley Associates. Drwy gydol y broses o greu'r prif gynllun, yr her oedd ailddyfeisio Bae Colwyn fel tref ar gyfer yr 21ain ganrif gyda ffocws newydd ar ei rôl fel tref glan môr a man deniadol i fyw, ymweld â buddsoddi ynddo. Ers dechrau'r prosiect mae Rhaglen Bywyd y Bae wedi llwyddo i gwblhau nifer o brosiectau ym Mae Colwyn, ac mae yna nifer o brosiectau ar y gweill.
- 5.1.6 Yn 2014, yn unol â chais y Cyngor, cynhaliodd Nathaniel Lichfield a'i Bartneriaid arolwg o Ganllaw Cynllunio Atodol drafft y prif gynllun, gan edrych ar ei berthynas â pholisiau cynllunio lleol a chenedlaethol. Arweiniodd yr ymarfer hwn at lunio cyfres o argymhellion ar sut y dylid diwygio'r canllaw cynllunio atodol sy'n cefnogi polisi ED/8 y CDLI i adlewyrchu cysylltiadau polisi o'r fath. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, ystyriwyd y dylid ailystyried y dewisiadau canol tref a nodir yn y prif gynllun, i sicrhau dichonoldeb ac i adlewyrchu nifer o ddatblygiadau a newidiadau sylweddol ers llunio'r prif gynllun yn wreiddiol.
- 5.1.7 I grynhoi, mae'r gwaith o adolygu elfen ganol tref y prif gynllun yn mynd rhagddo ac mae canlyniadau'r gwaith hwn yn debygol o arwain at adolygu polisi ED/8, gyda goblygiadau posibl i fap cynigion y CDLI o ran dynodiadau/dyraniadau yng nghanol tref Bae Colwyn.

5.2 Tai

5.2.1 Mae'r Strategaeth CDLI yn ceisio darparu tua 6,520 o anheddau newydd gan gynnwys rhai wedi'u cwblhau, ymrwymadau, safleoedd annisgwyl a dyraniadau newydd dros gyfnod y Cynllun. Mae'r targed hwn yn cyfateb i gyfradd adeiladu o 435 annedd newydd y flwyddyn, sy'n eithriadol o uchelgeisiol o gymharu â chyfraddau adeiladu'r gorffennol yng Nghonwy, fel y dangosir yn y graff isod.



5.2.2 Mae Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) 2017 yn awgrymu bod 3114 o anheddau wedi'u darparu. Er bod hyn yn cynrychioli nifer fawr o anheddau, mae'r lefel hon yn sylweddol is na'r gofynion CDLI. Does prin dim amheuaeth bod y dirywiad economaidd wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth anheddau dros y blynyddoedd diweddar.

5.2.3 Mae 9fed Rhifyn Polisi Cynllunio Cymru (2016) yn glir bod rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd neu yn dod i law i ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai (paragraff 9.2.3). Nid yw CBSC wedi cyflawni cyflenwad tir 5 mlynedd ers 2009/10 ac mae'r JHLAS diweddaraf wedi cyfrifo cyflenwad tir tai 3.1 mlynedd yn 2017 (Tabl 5.1).

5.2.4 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Astudiaeth Argaeledd Tir Tai ar y Cyd (Ionawr 2015) yn nodi lle mae gan Awdurdod Cynllunio Lleol ddiffyg mewn cyflenwad tir tai, dylid rhoi ystyriaeth i'r rhesymau dros y diffyg. Fel y nodwyd uchod, mae'r dirywiad economaidd wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth dyraniadau tai ac ystyrir mai hyn yw'r prif reswm dros beidio cyflawni cyflenwad tir 5 mlynedd ers 2009/10. Er hyn, mae angen adolygu'r holl ddyraniadau tai sydd heb eu datblygu yn y CDLI i sicrhau bod datblygiad ar y safleoedd hyn yn ddichonadwy ac y gellir darparu'r dyraniadau. Gall hyn arwain at dynnu rhai dyraniadau tai penodol o'r CDLI a dyrannu safleoedd newydd i ddiwallu anghenion tai lleol hyd at 2031. Bydd 'galwad am safleoedd' ffurfiol, yn gwahodd unrhyw un i gyflwyno safleoedd ar gyfer eu datblygu, yn ffurfio rhan o'r broses hon. Er

mwyn darparu ar gyfer newidiadau sydd eu hangen i ddyraniadau, bydd ffiniau setliad yn cael eu hadolygu fel bo angen.

- 5.2.5 Mae'n bwysig nodi os yw'r ffigur cyflenwad tir tai yn is na'r gofyniad 5 mlynedd, bod TAN1 6.2 yn nodi y dylid rhoi pwysiad sylweddol i'r angen i gynyddu'r cyflenwad wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio am dai, ar yr amod bod y datblygiad fel arall yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu a pholisïau cenedlaethol. Oherwydd bod gan CBSC ond cyflenwad tir tai 3.1 mlynedd, bydd pwysau sylweddol wedi'i roi i unrhyw ddatblygiad tai hapfasnachol sy'n diwallu'r meini prawf a nodwyd, fel yn y penderfyniad apêl diweddar ar gyfer datblygiad preswyl ym Mwlch Sychnant, Conwy (cyf cynllunio 0/41960). Felly, mae'n bosibl i'r sefyllfa hon danseilio'r agwedd a arweinir gan y cynllun sy'n darparu sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd am y math o ddatblygiad a ganiateir mewn lleoliad penodol.

Tabl 5.1

A	Cyfanswm gofyniad y CDLI (1/4/2007 – 31/3/2022)	6520
B	Cyflawniadau 1/4/2007-31/3/2017	2507
C	Darpariaeth Tai Gwag 1/4/2007 – 31/3/2017	607
D	Cyfanswm y Cyflawniadau 1/4/2007- 31/3/2017 (B + C)	3114
E	Gofyniad gweddilliol (A-D)	3406
F	Blynyddoedd o'r CDLI sy'n weddill	5
G	Gofyniad Blynyddol Gweddilliol (E/F)	681
H	Safleoedd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (gan gynnwys safleoedd wrth gefn)	1749
I	Cyfraniad safleoedd bach	271
J	Cyfraniad Tai Gwag	125
K	Cyfanswm Cyflenwad Tir 5 mlynedd (H + I + J)	2145
L	Cyflenwad tir mewn blynyddoedd (K/ G)	3.1

Tai Fforddiadwy

- 5.2.6 Diffyg Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol (AHLN) yw un o'r materion blaenoriaeth mwyaf brys ar gyfer Conwy a nifer o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Mae Nodyn Cyngor Technegol LIC (TAN) 2: 'Cynllunio a Thai Fforddiadwy' yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys targed tai fforddiadwy yn eu cynlluniau datblygu a nodi sut y bydd y targed hwn yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio agweddau polisi a nodwyd. Mae Aseidiadau Marchnad Tai Lleol (LHMA) yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisïau i ddarparu tai marchnad a thai fforddiadwy.

- 5.2.7 Yn unol â chanfyddiadau Astudiaeth Hyfywra Tai Fforddiadwy ac amcanion blaenoriaeth yr Conwy i gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy, mae polisi HOU/ 2 yn ceisio cael cyfraniad hyfyw o bob datblygiad tai o wahanol ganrannau o fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu Trefol a Phrif Bentrefi Haen 1. Yn y Prif Bentrefi Haen 2, Pentrefi Bychain a Phentrefannau, dylid ond datblygu i ddiwallu angen lleol a nodwyd am dai fforddiadwy. Mewn rhai amgylchiadau, yn dibynnu ar hyfywra, efallai y caniateir tai marchnad lle bo angen i ddarparu'r datblygiad tai fforddiadwy.

- 5.2.8 Mae gwir ddarpariaeth y tai fforddiadwy ar y rhan fwyaf o safleoedd wedi bod islaw'r lefelau a nodwyd gan bolisi HOU/2. Mae hyn oherwydd sawl rheswm, gydag amgylchiadau'n amrywio ar safleoedd unigol. I fynd i'r afael â hyn, bydd angen adolygu'r polisi trwy brofion hyfywdra pellach, a bydd y galwad am safleoedd yn cynnwys asesiad hyfywdra llym ar gam cynnar i leihau'r posibilrwydd bod rhwymedigaethau cynllunio yn cael eu lleihau oherwydd gwerthoedd tir uchel neu gostau annormal. Hefyd, bydd angen adolygu'r agwedd at ofynion tai fforddiadwy ar gyfer trawsnewidiadau; yn enwedig yn y cefn gwlad agored lle mae penderfyniad apêl wedi'i nodi bwlch yn y polisi CDLI yn ymwneud â diffyg gofyniad tai fforddiadwy penodol.
- 5.2.9 Mae cyfanswm o 277 uned tai fforddiadwy wedi'u darparu trwy'r system gynllunio ers mabwysiadu'r CDLI yn 2013. Dylid nodi bod CBSC hefyd yn darparu tai fforddiadwy trwy fecanweithiau eraill gan gynnwys trwy arian grant, gan ailddefnyddio cartrefi gwag a gweithio gyda phartneriaid tai, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ayyb.
- 5.2.10 Rhagwelir y bydd y CCA Tai Fforddiadwy a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn cynorthwyo wrth ddarparu tai fforddiadwy, ac yn darparu arweiniad angenrheidiol ar gyfer y meysydd a ganlyn:
- a) Diffinio Tai Fforddiadwy a Fforddiadwyedd
 - b) Angen O Ran Tai
 - c) Darpariaeth Tai Fforddiadwy
 - d) Safleoedd Eithriadau
 - e) Anheddau Mentrau Gwledig (AMG)
 - f) Dyluniad
 - g) Dwysedd a Chymysgedd Tai
 - h) Cymhwyster
 - i) Hyfywedd a Darpariaeth
- 5.2.11 Roedd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2016-2021) yn dangos cyfanswm angen tai fforddiadwy blynyddol o 199 annedd o'i gymharu â gofyniad blynyddol o 123 annedd fel y nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2013. Ond, bydd y lefel derfynol o Dai Fforddiadwy yn amodol ar y broses Adolygu CDLI ar ôl ystyried y rhagamcanion poblogaeth/anheddu newydd, dewisiadau strategaeth twf a thystiolaeth berthnasol.

Tai Amfeddiannaeth

- 5.2.12 Mae Polisi HOU/10 – '*Tai Amfeddiannaeth a Fflatiau Hunangynhwysol*' yn nodi y bydd pob cais i greu Tai Amfeddiannaeth yn cael eu gwrthwynebu. Roedd y safiad hwn yn seiliedig ar broblemau hanesyddol yng Nghonwy, yn enwedig ym Mae Colwyn, lle mae Tai Amfeddiannaeth yn aml wedi darparu amgylchedd byw cymharol wael a phrin iawn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ansawdd tai ardal.
- 5.2.13 Mae'r adeilad y gellir ei ddisgrifio fel Tŷ Amfeddiannaeth wedi ehangu ers mabwysiadu'r polisi. Mae rŵan yn cynnwys blociau o fflatiau hunangynhwysol a thai wedi'u trawsnewid. Ers Mawrth 2017, mae gofynion newydd i berchnogion eiddo geisio caniatâd i newid defnydd o 'annedd' i 'dŷ amfeddiannaeth bychan' (sy'n cael eu gosod i 3-5 person nad ydynt yn perthyn), yn ymestyn cwmpas y cais polisi i drefniadau tai wedi'u rhannu. Ni fyddai wedi bod yn bosibl rhagweld y newidiadau hyn pan fabwysiadwyd y polisi.
- 5.2.14 Ers mabwysiadu'r Polisi, mae newidiadau sylweddol i reoliad llety rhent sector preifat wedi dod i rym gan ganiatáu ar gyfer safonau eiddo corfforol gwael, materion cymdeithasol ac amgylcheddol, i'w datrys yn uniongyrchol.
- 5.2.15 Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2016-2021 Conwy yn nodi;

'Mae Tai Amfeddiannaeth yn cynnwys ystod eang o fathau o dai, yn bennaf yn y sector rhentu preifat, gan gynnwys fflat un ystafell a mathau eraill o lety gyda chyfleusterau a

rennir. Maent yn aml yn gartref i bersonau sengl ar incwm isel a gallant gynnwys grwpiau diamddiffyn a dan anfantais. Mae Tai Amlfeddianaeth wedi'u rheoli a'u cynnal yn dda yn ddewis daliadaeth pwysig ar gyfer aelwydydd ar incwm isel, yn enwedig personau sengl dan 35 oed sydd fel arfer ond yn gymwys am fudd-dal tai ar gyfradd llety a rennir.'

- 5.2.16 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddarparwyr tai cymdeithasol ddatblygu tai a rennir ac mae Conwy wedi sefydlu gweithgor tai a rennir i ddatblygu cyfleoedd yn y Fwrdeistref. Mae'r gwaith llwybr cadarnhaol pobl ifanc sy'n cael ei wneud rhwng Tai a Gofal Cymdeithasol wedi tanlinellu'r angen am dai fforddiadwy a rennir. Mae'r polisi presennol yn cyfyngu ar ddatblygiad cynlluniau tai fforddiadwy, cymdeithasol a rennir a thai â chefnogaeth ac yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i ymateb i flaenoriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a blaenoriaethau tai strategol.
- 5.2.17 Oherwydd yr angen a nodwyd, ystyrir effaith Diwygio'r Gyfundrefn Les, lefelau Lwfans Tai Lleol, newidiadau mewn canllawiau a phenderfyniadau apêl diweddar, credir bod angen asesiad pellach o HOU/10 fel rhan o'r broses Adolygu CDLI.

Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

- 5.2.18 Polisi HOU/9: Cafodd 'diwallu angen Sipsiwn a Theithwyr am safleoedd' y CDLI presennol ei ategu gan yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2013 (GTANA) sy'n nodi'r angen am 3 llain breswyl yn Nghonwy erbyn 2016 (y rhagwelir fydd yn tyfu 3% bob blwyddyn) a safle teithio ar gyfer hyd at 7 carafán ar ffin y Sir gyda Chyngor Sir Ddinbych, lle gall y ddau awdurdod gydweithredu wrth ddarparu er mwyn gwneud y gorau o'r defnydd.
- 5.2.19 Mae CBSC rŵan wedi datblygu safle preswyl 4 llain ar gyrion tref Conwy gyda chymorth arian grant LIC, ac mae pedwar teulu rŵan ar y safle.
- 5.2.20 Mae'r GTANA diweddaraf (Ionawr 2017) yn nodi'r angen am un llain breswyl ychwanegol a'r un anghenion teithio â'r GTANA blaenorol (7 llain).
- 5.2.21 Mewn perthynas a'r llain breswyl ychwanegol, dylid nodi y bydd yn heriol i ddarparu llain bellach ar safle tref Conwy oherwydd diffyg tir sydd ar gael. Mae CBSC a LIC hefyd yn cydnabod na fydd safle un llain yn cynrychioli gwerth am arian.
- 5.2.22 Mae gan yr heddlu bwerau ar wahân dan adrannau Deddf Gorchymyn Cyhoeddus 1994 i orchymyn i dresmaswyr a theithwyr i adael tir a chael gwared ar unrhyw gerbyd ac eiddo o'r tir lle ceir llain addas ar safle carafanau mewn man arall yn yr awdurdod lleol. Felly, os creir safle tramwy yn Sir Ddinbych yn unig, yna ni fyddai modd symud pobl o wersylloedd diawdurdod yn Sir Conwy yno. Oherwydd hyn, ystyriwyd y byddai safle ar y cyd yn annigonol.
- 5.2.23 Mae CBSC rŵan wedi dechrau ar y broses 'galw am safleoedd' ar gyfer dod o hyd i safle addas a'i ddatblygu, gyda chymorth arian grant LIC. Yn amodol ar gytundeb pellach y Cabinet, bydd y safle a ffefrir yn cael ei ddatblygu drwy gyflwyno cais cynllunio ffurfiol a/neu drwy broses adolygu ffurfiol y Cynllun Datblygu Lleol.

5.3 Cyflogaeth

Y problemau:

Perfformiad Polisi

5.3.1 Nifer fach yn manteisio ar dir cyflogaeth

Mae Polisiâu EMP/1 ac EMP/2 y CDLI yn nodi bod angen cyfanswm o 39.5 hectar o dir cyflogaeth swyddfa a diwydiannol B1, B2 a B8 (gan gynnwys safleoedd wedi'u cwblhau, ymrwymo, dyraniadau a safleoedd wrth gefn) dros gyfnod y Cynllun yn Ardal y Strategaeth Datblygu Trefol ac Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig.

5.3.2 Mae nifer o bryderon yn dod i'r amlwg o ran gweithredu'r Strategaeth Economaidd, mae rhai yn ymwneud â manteision ar dir cyflogaeth o ran caniatâd newydd a chwblhau. Ymddengys bod y perfformiad yn erbyn dangosyddion yn yr AMR yn dangos bod yna ddiffyg galw am dir cyflogaeth newydd (dosbarth B) yng Nghonwy, a thra gallai'r hinsawdd economaidd gyffredinol fod yn ffactor cyffredinol, gall hefyd fod yn arwydd nad yw nifer, lleoliad na chyflenwad y tir cyflogaeth yn cyfateb i'r galw. Nodwyd hefyd bod nifer o geisiadau yn cael eu gwneud ar gyfer defnyddio safleoedd a ddyrannwyd ac a ddiogelwyd B1, B2 a B8 ar gyfer defnydd arall fel cyfleusterau iechyd, ysgolion a champfeydd yn hytrach na defnydd dosbarth B. Mae archwiliad pellach o weithgarwch economaidd ers mabwysiadu'r CDLI wedi'i ddadansoddi ymhellach isod:

5.3.3 Mae dangosydd monitro MI/026 yn mesur datblygiad tir cyflogaeth yn Ardal y Strategaeth Datblygu Trefol. Y targed yw datblygu 3 hectar o dir cyflogaeth erbyn 2022 gyda cherrig milltir wedi'u gosod rhyngddynt. Yn ystod cyfnod 2007-2012 mae tua 8.4 hectar o arwynebedd llawr masnachol B1, B2 a B8 sydd gyfwerth â 11.7 hectar gros o dir cyflogaeth wedi'i gwblhau yn Ardal y Strategaeth Datblygu Trefol. Hwn yw'r ffigur gwaelodlin gyda'r disgwyliad y caiff 3 hectar pellach ei ddatblygu erbyn 2022. Wrth edrych ar AMR 2016, dim ond tua 2,500 metr sgwâr (0.3 hectar gros) ychwanegol sydd wedi'i adeiladu ers mabwysiadu'r CDLI. Digwyddodd y datblygiad hwn ar Barc Busnes Gogledd Cymru, Abergele yn ystod 2015, ac roedd ar gyfer canolfan ofal (dosbarth defnydd Sui Generis) yn hytrach na defnydd dosbarth B.

5.3.4 Yn ogystal, mae caniatâd diweddar yn Ardal y Strategaeth Datblygu Trefol yn cynnwys;

- Esgyryn, Narrow Lane, Cyffordd Llandudno - 0.2 hectar (tua 750 metr sgwâr) o ofod swyddfa B1 yn creu hyd at 80 o swyddi
- Hen Safle Gwaith Brics, Cyffordd Llandudno - rhoddwyd cymeradwyaeth ar gyfer archfarchnad fanwerthu 8,700 metr sgwâr, gorsaf betrol a bwytai (x4 = tua 1400 metr sgwâr) gan greu tua 250 o swyddi.

5.3.5 O ran datblygiad yn nangosydd monitro Ardal y Strategaeth Drefol MI/027, y targed yw 3 hectar o ddatblygiad erbyn 2022, gyda gwaelodlin o 0 hectar ers 2007. Ers mabwysiadu'r CDLI, nid oes datblygiad masnachol wedi'i gwblhau ar safleoedd a ddyrannwyd yn Ardal y Strategaeth Datblygu Trefol, er bod 1,500 metr sgwâr o ddefnydd dosbarth B1 yn Nhŷ Gwyn, Llanrwst yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd.

5.3.6 Er gwaethaf datblygiadau fel y rhai a nodir uchod, y casgliad yn AMR 2016 yw bod y perfformiad yn erbyn y dangosyddion monitro yn is na'r hyn a ddisgwyliar o ran defnydd B1, B2 a B8. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu amodau economaidd cyffredinol, ond mae methiant i gyrraedd y targedau CDLI yn awgrymu bod angen rhagor o waith i ddeall a yw sŵn a lleoliad cyflenwad y tir cyflogaeth yn gallu bodloni galw presennol a galw yn y dyfodol.

- 5.3.7 Mae Polisi EMP/3 yn bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf sy'n cefnogi datblygiad cyflogaeth ar safleoedd na ddyrannwyd lle mae'r meini prawf yn cael eu bodloni. Mae natur y polisi hwn yn unol â chanllawiau cynllunio cenedlaethol newydd sy'n golygu bod angen i CDLI gynnwys hyblygrwydd (para 4.7.1, TAN 23), fodd bynnag bydd angen i'r meini prawf oddi mewn gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn unol â pholisïau eraill y CDLI a allai fod yn destun newid.
- 5.3.8 Mae Polisi EMP/4 sy'n seiliedig ar feini prawf, ar ddiogelu wedi'i nodi sawl tro wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio ers mabwysiadu'r CDLI. Oherwydd newidiadau i ganllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, bydd angen adolygu EMP/4. Mae rhagor o fanylion ar EMP/4 yn Adran 5.2.2.
- 5.3.9 Mae ardaloedd gwella cyflogaeth swyddfa a diwydiannol wedi'u cwmpasu dan bolisi EMP/5. Mae cefnogaeth ar gyfer gwneud ardaloedd sy'n llai sensitif yn amgylcheddol (fel y safleoedd tir llwyd a restrir yn y polisi) yn fwy deniadol ar gyfer darpar fuddsoddwyr yn hytrach na dilyn trywydd tir maes glas, er enghraifft (para 2.1.14, TAN 23). Fodd bynnag bydd angen adolygu'r rhestr o safleoedd cyflogaeth ynddynt i sicrhau eu bod yn unol â pholisïau eraill y CDLI a allai fod yn destun newid.
- 5.3.10 Mae EMP/6 yn ymdrin ag aildefnyddio ac addasu adeiladau segur yng nghefn gwlad. Mae meini prawf yn y canllawiau cenedlaethol para 3.2 TAN 23 sy'n cwmpasu hyn hefyd. Felly dylid adolygu'r polisi i sicrhau nad yw'n ailadrodd neu'n gwrthdaro gyda pholisi cynllunio cenedlaethol.

Newidiadau i Ganllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol Pennod 7 a TAN 23 – Tachwedd 2014.

- 5.3.11 Ers mabwysiadu CDLI Conwy yn Hydref 2013, mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 – Datblygu Economaidd wedi eu diwygio / cynhyrchu ac mae goblygiadau o ran y penderfyniadau cynllunio sy'n cael eu gwneud. Mae Polisi Cynllunio Cymru ym mharagraff 7.5.1 yn nodi y dylai Cynlluniau Datblygu:
- ddarparu targedau ar ddarparu tir ar gyfer defnydd cyflogaeth (Dosbarthiadau B1-B8), gan ddangos newid net mewn tir/gofod llawr i swyddfeydd a diwydiant/ystordai ar wahân, ac amddiffyn y safleoedd hyn rhag datblygu amhriodol;
 - cynnwys polisïau yn ymwneud â datblygu yn y dyfodol ar safleoedd cyflogaeth presennol i'w hamddiffyn rhag datblygu amhriodol:
 - annog adfywio ac aildefnyddio safleoedd sydd dal yn addas a lle mae eu hangen ar gyfer cyflogaeth;
 - rheoli rhyddhau safleoedd cyflogaeth nad oes eu hangen i ddefnyddiau eraill;
- 5.3.12 Mae Polisi Cynllunio Cymru pennod 7 hefyd yn argymhell creu Adolygiadau Tir Cyflogaeth a'r angen i gynnal adolygiadau o'r fath yn unol â'r canllawiau ymarfer a gyhoeddwyd (Awst 2015).
- 5.3.13 Er bod TAN 23 yn cydnabod y gall gweithgarwch economaidd ddeillio o'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol a chynnwys defnydd y tu hwnt i'r dosbarth B traddodiadol megis manwerthu, twristiaeth a hamdden; mae'n pwysleisio bod y defnydd manwerthu, twristiaeth a hamdden yn destun ystod o bolisïau eraill. O ganlyniad mae'r TAN yn ymdrin â defnydd Dosbarth B gan eu bod yn destun dull traddodiadol ond cynaliadwy o gynllunio. Mae'r TAN yn hyrwyddo ystyriaeth ofalus wrth ryddhau safleoedd cyflogaeth traddodiadol i ddefnydd amgen gan yn aml byddant yn gwneud cyfraniad dilys i'r economi leol ac yn anodd eu disodli ar ôl eu colli.
- 5.3.14 Mae TAN 23 hefyd yn rhoi arweiniad ar gynigion datblygu economaidd. Mae paragraff 4.6.8 yn nodi "Mae'r defnydd traddodiadol ar gyfer cyflogaeth yn tueddu i greu gwerthoedd tir is na nifer o ddefnyddiau tir eraill, yn arbennig tai a manwerthu, o

ganlyniad, mae unrhyw dir a gollir i'r defnyddiau hyn yn gyffredinol yn anodd i'w ddisodli. Dylai awdurdodau cynllunio osgoi rhyddhau safleoedd ar gyfer defnyddiau eraill lle mae tystiolaeth gref o angen tebygol yn y dyfodol ar gyfer B1-B8. Mewn rhai ardaloedd, gellir bod angen ardaloedd cyflogaeth hŷn sydd o gost is, yn arbennig ar gyfer cwmnïau bach a newydd na allant fforddio safleoedd mwy newydd a mwy mawreddog. Gall colli ardaloedd fel hyn achosi niwed i economïau lleol a dylid osgoi hynny."

5.3.15 Mae meini prawf sydd wedi'u gynnwys ym mharagraff 4.6.9 hefyd yn effeithio ar bolisi CDLI presennol.

"Ni ddylid rhyddhau safleoedd cyflogaeth presennol ar gyfer defnyddiau eraill dim ond os yw un neu fwy o'r canlynol yn wir:

- mae tebygrwydd isel y byddant yn cael eu hail-feddiannu ar gyfer eu defnydd gwreiddiol;
- mae'r farchnad benodol y mae'r safle yn rhan ohoni yn cael ei gorgyflenwi;
- mae'r defnydd cyflogaeth presennol yn cael effaith annerbyniol ac andwyol ar harddwch yr ardal neu'r amgylchedd;
- nid yw'r ailddatblygiad arfaethedig yn cyfaddawdu yn ddiangen safleoedd cyflogaeth cyfagos sydd i'w cadw;
- mae blaenoriaethau eraill, fel yr angen am dai, yn bwysicach nag ystyriaethau economaidd sydd â ffocws mwy cul; a/neu
- mae tir sy'n cyfateb o ran ansawdd neu o ansawdd gwell yn cael ei ddarparu mewn man arall, hyd yn oed os nad yw hwn o fewn ffin yr awdurdod cynllunio lleol."

5.3.16 Mae'r newidiadau i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol ar Ddatblygu Economaidd yn golygu bod rhai polisïau'r CDLI, yn enwedig EMP/4 ar ddiogelu, angen eu hadolygu i sicrhau eu bod yn unol â pholisi cenedlaethol. Gallai'r angen i gynnal Adolygiad o Dir Cyflogaeth olygu y gallai sylfaen dystiolaeth wedi'i diweddarau anghytuno â pholisi wedi'i fabwysiadu a'r Strategaeth Economaidd.

Amcanestyniadau Poblogaeth a Strategaeth Cynnydd Tai

5.3.17 Mae amcanestyniadau poblogaeth diwygiedig wedi'u rhyddhau gan Lywodraeth Cymru a fydd yn dylanwadu ar y strategaeth ar gyfer darpariaeth tir cyflogaeth a chynnydd tai. Mae hyn yn cael ei nodi yn adran Strategaeth yr Adroddiad Adolygiad hwn.

Strategaeth Economaidd Leol

5.3.18 Mae Strategaeth Economaidd Conwy 2017 – 2027 wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar (Chwefror 2017). Mae'r Strategaeth yn ystyried mentrau a ellir eu cynnal i alluogi busnesau yn y sir i dyfu, arallgyfeirio, uwchsgilio a chystadlu ym marchnadoedd y DU a marchnadoedd byd-eang. Mae'n nodi cyfleoedd strategol a fyddai'n creu swyddi newydd a gwella ansawdd swyddi presennol yn yr economi leol, gan symud o gyflogaeth dymhorol i gyflogaeth ar hyd y flwyddyn. Felly mae'n bwysig bod strategaeth y CDLI yn unol â'r gywyr a'r sylfaen dystiolaeth sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon wrth symud ymlaen at 2027.

Gyrwyr Twf Rhanbarthol

5.3.19 Gan roi ystyriaeth i ystyriaethau rhanbarthol newydd, roedd AMR 2016 yn amlygu'r effeithiau ar ofynion tir posibl o ganlyniad i Orsaf Bŵer Niwclear Wylfa B o ran y posibilrwydd o gyflogaeth newydd, tai a lleoliadau cludiant strategol. Bydd y gofyniad a nodwyd yn Neddff Cynllunio 2015 i ystyried paratoi Cynllun Strategol rhanbarthol Coridor yr A55 hefyd yn dylanwadu ar yr elfen hon. Yn benodol, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn bwrw ymlaen â Gweledigaeth Twf Economaidd a fyddai'n gofyn cymorth statudol drwy'r CDLI, lle nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd mewn gwahanol ardaloedd. Bydd angen rhoi ystyriaeth i unrhyw dystiolaeth ranbarthol arall, megis y Cynllun Cludiant Rhanbarthol, yn ystod yr adolygiad CDLI hefyd.

Adolygiad o Dir Cyflogaeth Conwy sy'n dod i'r amlwg

- 5.3.20 Gan ymateb i'r holl ffactorau hyn, mae Adolygiad Tir Cyflogaeth ar gyfer Conwy wedi dechrau a bydd yn sylfaen dystiolaeth sylweddol wrth benderfynu ar gyfeiriad Strategaeth Economaidd y CDLI yn y dyfodol a chyflenwad, lleoliad a math y tir cyflogaeth yn y dyfodol. Bydd yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn hanfodol wrth sefydlu'r gyrrwyr twf rhanbarthol fel a nodwyd yn y paragraff olaf a'u goblygiadau ar strategaeth cyflogaeth Conwy a faint o dir cyflogaeth sydd ei angen at 2031.

5.4 Twristiaeth

- 5.4.1 Mae rhanbarth Gogledd Cymru wedi'i gydnabod fel pedwaredd cyrchfan dwristiaeth orau'r byd gan Lonely Planet ac mae Sir Conwy wrth galon y cynnig hwnnw i dwristiaid. Mae tref Conwy'n enwog yn rhyngwladol am ei threftadaeth o safon fyd-eang ac mae Llandudno wedi'i henwi'n dref lan môr orau'r DU a'r bedwaredd gyrchfan orau yn y DU gan TripAdvisor. Mae'r sir yn dod yn enwog drwy'r byd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer anturiaethau adrenalin wrth i Surf Snowdonia, Go Below a Zip World Fforest arwain y ffordd. Mae digwyddiadau mawr wedi denu cynulleidfaoedd newydd i'r sir ac wedi gwneud cyfraniadau economaidd sylweddol. Y peth allweddol rwan yw adeiladu ar y llwyddiant hwnnw a gwella ansawdd swyddi sy'n gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth.
- 5.4.2 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9);
'Mae twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn sawl man yng Nghymru. Mae'n ffynhonnell bwysig, a chynyddol, o gyflogaeth a buddsoddiad yn seiliedig ar amrywiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol y wlad. Gall twristiaeth fod yn sbardun i ddiogelu, adfywio a gwella'r amgylchedd mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd.'
- 5.4.3 Mae strategaeth 'Partneriaeth ar gyfer Twf 2013-2020' Llywodraeth Cymru'n nodi dull arweinig gan gynnyrch i ddatblygu a marchnata twristiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn golygu gweithio gyda chynnyrch a digwyddiadau eiconig, safon uchel sy'n dwyn enw da. Mae'n anffodus, er bod Lywodraeth Cymru'n cydnabod bod twristiaeth yn hanfodol i economi Cymru, bod Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 13: Twristiaeth, a gyhoeddwyd yn 1997, wedi dyddio'n arw.
- 5.4.4 Mae 'Strategaeth Twf Economaidd 2017-2027' Sir Conwy'n ceisio gwneud Conwy'n gyrchfan dwristiaeth gwirioneddol ryngwladol, bywiog a deniadol drwy gydol y flwyddyn ym mhob agwedd o brofiad ymwelwyr. Mae angen datblygu economi gyda'r nos i ategu mwy o dwf yn y farchnad twristiaeth fusnes, sy'n cyfrannu tuag at wariant mawr gan ymwelwyr.
- 5.4.5 Mae 'cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy 2015 -2018' yn nodi dull sy'n debyg i brosiect er mwyn darparu a marchnata twristiaeth yng Nghymru. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar westai a chyfleusterau o well ansawdd, gyda mwy o atyniadau, gweithgareddau a phrofiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn sy'n arloesol, yn anaml ac yn unigryw.
- 5.4.6 Nid oes pryderon ynglŷn â gweithredu'r amcanion strategol. Ystyrir bod y polisiau'n cynorthwyo i gyflawni'r amcanion strategol i atgyfnerthu ac arallgyfeirio'r economi wledig lle bo hyn yn cyd-fynd â buddion yr economi leol, y gymuned a'r amgylchedd. Maent hefyd yn cynorthwyo twristiaeth drwy ddiogelu a gwella atyniadau a llety twristiaeth arfordirol a gwledig a manteisio ymhellach ar y potensial i ddatblygu, atgyfnerthu ac annog diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn lle bo datblygiadau'n cydymffurfio â'r polisiau eraill yn y CDLI.

Datblygiadau Twristiaeth a Hamdden Cynaliadwy Newydd

- 5.4.7 Ffurfiwyd Polisi TOU/2 'Datblygiadau Twristiaeth a Hamdden Cynaliadwy Newydd' ar gyfer datblygiadau twristiaeth mawr, yn enwedig o ran ychwanegu llety i safleoedd hamdden. Yn gyffredinol, mae'n gweithio'n dda ac mae wedi'i ddefnyddio i hyrwyddo ac amddiffyn safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio. Er hynny, Bydd angen mân ddiwygiadau wrth ei adolygu i wneud y polisi'n fwy eglur.

Parthau Llety Gwyliau

- 5.4.8 Mae polisiau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi gwella llety â gwasanaeth sy'n bod eisoes ac fe fyddant yn cefnogi adeiladu llety newydd i dwristiaid. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod pwysigrwydd cynnal ystod dda o lety gwyliau i ymwelwyr.

5.4.9 Roedd y Parth Llety Gwyliau (polisi TOU/3) yn rhyw fath o sefyllfa a etifeddwyd, ac fe gafodd ei ddiweddarau a'i ddiwygio yn unol â'r gwaith arolygu diweddaraf. Fodd bynnag, dylanwadau'r farchnad a fydd yn rheoli yn y pen draw ac, yn y gorffennol, mae nifer fechan o'r eiddo yn yr ardal wedi cau ac wedi'u gosod ar y farchnad am wahanol resymau. Mae benthycwyr hefyd yn ffafrio eiddo'r farchnad agored yn hytrach na rhai economaidd. Fodd bynnag, mae cynnydd mewn masnach sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yng Nghonwy ar hyn o bryd ac mae'n bwysig sicrhau bod gofynion y diwydiant twristiaeth yn cael eu bodloni. Bydd CBSC yn asesu'r gofynion hyn yn llawn yn rhan o strategaeth twf twristiaeth er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol ar sail gwybodaeth drylwyr. Ystyrir bod angen diwygiad wrth adolygu er mwyn sicrhau bod angen yn cael ei ddiwallu gan hefyd ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd yn y polisi.

Safleoedd Cabannau, Carafanau a Gwersylla

5.4.10 Mae Polisi TOU/4 'Safleoedd Cabannau, Carafanau a Gwersylla' yn ymwneud ag ardaloedd arfordirol yn unig i ganiatáu gwella safleoedd a hyrwyddo dwyseddau is yn hytrach na gwelliannau amgylcheddol neu amwynder. Yn yr ardaloedd gwledig, mae angen newid y polisi rhywfaint er mwyn mynd i'r afael â'r safleoedd sefydlog mawr presennol rhag gor-ddatblygu ar diroedd sensitif. Mae hefyd angen gwella'r cyfeiriadau at boblogrwydd cynyddol 'gwersylla amgen' (iwrtiau, podiau, cytiau bugeiliaid, ac ati). Bydd angen diwygio/asesu yn ystod yr adolygiad.

Antur a Thwristiaeth Gydol y Flwyddyn

5.4.11 Mae Twristiaeth Antur yn farchnad sy'n tyfu ac mae atyniadau newydd yn agor yng Ngogledd Cymru ac atyniadau presennol yn ehangu i ddarparu ar gyfer y math newydd hwn o dwristiaeth. Mae Llywodraeth Cymru'n dymuno hyrwyddo Cymru fel y wlad orau yn y byd ar gyfer twristiaeth antur yn dilyn Blwyddyn Antur 2016. Penderfynwyd ar themâu eraill ar gyfer 2017 a 2018 i hyrwyddo cryfderau mwyaf Cymru ac i ganolbwyntio gweithgareddau, digwyddiadau ac atyniadau ar nodweddion gorau'r cynnig twristiaeth sydd gan Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n gyson mewn cynnyrch twristiaeth antur yn y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer o'r atyniadau hyn yn cael eu gwasanaethu gan gyfleusterau a llety sydd yng Nghonwy.

5.4.12 Mae'r economi gyda'r nos a chynnig deniadol i ymwelwyr yn ystod y gaeaf yn hanfodol i sefydlu Sir Conwy fel cyrchfan drwy gydol y flwyddyn. Mae Venue Cymru'n denu ystod eang o gynadleddau ac archebion busnes drwy gydol y flwyddyn. Er mwyn tyfu'r farchnad hon a sicrhau bod cymaint â phosib' yn aros dros nos yn sgil yr archebion hyn, mae angen i Landudno gynnis mwy i ymwelwyr ei wneud gyda'r nos, gan gynnwys gwell cynnig o ran caffis/bwytai. Mae data'n dangos bod niferoedd yr ymwelwyr ar draws y sir yn gostwng yn sylweddol o fis Tachwedd hyd at fis Chwefror. Byddai buddsoddi mewn digwyddiadau atyniadol yn ystod y cyfnod hwn a datblygu atyniadau y gellir eu mwynhau drwy gydol y gaeaf yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, gan gyfrannu tuag at yr economi dwristiaeth gyffredinol a chreu lle i fwy o swyddi llawn-amser o safon.

5.4.13 Yn rhan o adolygiad y CDLI, ac wrth ystyried uchelgeisiau Strategaeth Twf Economaidd Conwy a sbardunau eraill ar gyfer twf, bydd CBSC yn paratoi strategaeth twf twristiaeth yn gysylltiedig â pholisïau/dynodiadau ar gyfer twf twristiaeth/hamdden e.e. twristiaeth gwerth uwch drwy gydol y flwyddyn yn y sectorau hamdden/ gweithgareddau/antur, ac ati.

5.5 Cyfleusterau Cymunedol

Manwerthu

- 5.5.1 Adolygwyd pennod 10 Polisi Cynllunio Cymru a TAN4 ym mis Tachwedd 2016. Mae amcanion allweddol manwerthu yn debyg i'r rhai blaenorol, ond mae rhai gofynion polisi newydd y dylid eu cynnwys mewn polisiau CDLI. Bydd angen adolygu'r rhain er mwyn asesu os yw'r polisiau Egwyddorion Datblygu a Gwasanaethau a Chyfleusterau Cymunedol yn darparu manylion addas er mwyn asesu ceisiadau cynllunio. Mae polisi cenedlaethol yn annog cymysgedd o ddefnydd yng nghanol trefi ac yn awgrymu y gellir mabwysiadu dull hyblyg ar gyfer newid defnydd. Efallai y bydd angen adolygu'r trothwyon a nodir mewn monitro CDLI a CCA CDLI23 Newid Defnydd yng Nghanol Trefi a Chymdogathau er mwyn adlewyrchu hyn.
- 5.5.2 Cyhoeddodd CBSC Astudiaethau Capasiti Manwerthu ym mis Ebrill 2013. Daethpwyd i'r casgliad fod angen datblygiad manwerthu newydd yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn cwrdd gofynion tan 2022:
- Ardal arfordirol: Gofod llawr cyfleustra 75,000 troedfedd sgwâr
 - Llanrwst: Gofod llawr cyfleustra 18,000 troedfedd sgwâr
 - Bae Colwyn: 40-50,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr cymharol a chynyddu effeithlonrwydd y gofod llawr cyfredol o 5%, 30-40,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr cymharol a chynyddu effeithlonrwydd y gofod llawr cyfredol o 10%, neu dim gofod llawr cymharol a dim ond cynyddu effeithlonrwydd y gofod llawr cyfredol.
 - Llandudno: 15,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr cymharol a chynyddu effeithlonrwydd y gofod llawr cyfredol neu dim gofod llawr cymharol a dim ond cynyddu effeithlonrwydd y gofod llawr cyfredol.
- 5.5.3 Mae'r gofyn o ran gofod llawr cymharol angenrheidiol yn Llandudno wedi ei ddiwallu gan gais TK Maxx a'r datblygiad ym Mharc Manwerthu Mostyn Champneys. Mae cais am gynnig archfarchnad yng Nghyffordd Llandudno wedi ei gymeradwyo, sy'n cwrdd y rhan fwyaf o'r gofod llawr cyfleustra arfordirol a nodwyd. Bydd angen monitro cynnydd datblygu'r safle hwn er mwyn sicrhau fod yr angen a nodwyd o ran manwerthu yn cael ei gwrdd. Rhoddir ystyriaeth i ddynodi'r safle ehangach er mwyn gwarchod ei ddefnydd manwerthu a hamdden.
- 5.5.4 Bydd ffigyrau'r boblogaeth a adolygwyd yn dilyn Cyfrifiad 2011 a diweddariad i amcanestyniadau poblogaeth a chartrefi yn effeithio ar yr angen a'r galw o ran manwerthu. Cafodd y rhain eu cyhoeddi wedi'r Astudiaeth Adwerthu diwethaf (2013). Bydd angen cydnabod arferion manwerthu fel y cynnydd mewn siopa ar y we.
- 5.5.5 Bydd angen astudiaeth manwerthu gyfredol er mwyn asesu'r newidiadau o ran manwerthu a'r galw o ganlyniad i ffigurau sylfaenol y boblogaeth sydd wedi'u diweddarau ac amcanestyniadau, y Strategaeth Economaidd newydd ar gyfer y rhanbarth, diweddariad i'r polisi cynllunio manwerthu cenedlaethol a newidiadau ym mhatriymau siopa pobl. Os darganfyddir angen, efallai y bydd angen dyraniad.
- 5.5.6 Amlygodd yr Adroddiad Monitro Blynyddol rai pryderon yn y dangosyddion gwirio iechyd manwerthu (nodwyd fel rhai oren). Ystyrir fod polisiau CDLI yn gweithredu'n effeithiol, ond gellir asesu iechyd canol trefi ymhellach mewn Astudiaeth Manwerthu wedi'i ddiweddarau. Mae'n bosib y bydd angen adolygu polisiau er mwyn gwella egni, hyfywedd ac atyniad y canolfannau siopa. Mae polisi cenedlaethol newydd yn ceisio sicrhau cymysgedd o ddefnydd mewn ardaloedd manwerthu eilaidd. Mae angen adolygu'r targed o ddefnydd nad yw'n A1 yn y monitro, er mwyn adlewyrchu hyn.

Mannau Agored

- 5.5.7 Mae'r Asesiad Mannau Agored yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd. Mae'n asesu meintiau a hygyrchedd y safleoedd manau agored cyfredol ar lefel anheddiad yn Ardal

Y Cynllun yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'n debygol y bydd yn nodi diffyg o ran rhai mathau o fannau agored, sy'n effeithio ar iechyd a lles. Efallai y bydd angen dyrannu er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn.

- 5.5.8 Mae Meysydd Chwarae Cymru wedi cyhoeddi canllawiau newydd sy'n manylu ar safonau a argymhellwyd ar gyfer mannau agored yng Nghymru. Mae'r rhain yn amrywio o'r rhai blaenorol ar gyfer rhai teipoleg. Mae TAN16 yn nodi mai'r safonau hyn yw'r man cychwyn ar gyfer gosod safonau mewn unrhyw CDLI. Bydd angen adolygu polisi CDLI CFS/11 er mwyn adlewyrchu'r diweddariad hwn. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn bwrw rhagddo gyda mabwysiadu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, ond rydym yn aros am adolygiad cenedlaethol yng Nghymru. Efallai y bydd darpariaeth mannau agored mawr yn cael ei ddarparu drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Bydd angen adolygu CFS/11 er mwyn adlewyrchu hyn.

Cyfleusterau Gwledig

- 5.5.9 Mae monitro yn nodi fod polisi CFS/6 yn gwarchod cyfleusterau cymunedol fel y bwriedir. Mae'r rhain yn hanfodol ar gyfer ein cymunedau gwledig felly cynigir y newidiadau lleiaf posib i'r polisi er mwyn sicrhau fod cyfleusterau'n dal i gael eu gwarchod. Bydd yr arolwg cyfleusterau gwledig yn cael ei ddiweddarau i hysbysu'r polisi hwn.

Rhandiroedd

- 5.5.10 Mae caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer y safle tai a rhandiroedd yn Dwygyfylchi. Mae gwaith adeiladu wedi cychwyn. Bydd y rhandiroedd yn cael eu darparu fel gardd gymunedol, sy'n dal i gwrdd gofynion. Ceisiwyd cyfraniad ariannol am resymau hyfywedd yn Esgyryn, Cyffordd Llandudno.

- 5.5.11 Mae Meysydd Chwarae Cymru wedi argymhell safon newydd ar gyfer cyflawni rhandiroedd a gerddi cymunedol. Mae angen sail tystiolaeth wedi ei ddiweddarau er mwyn asesu os yw'r rhandiroedd eraill yn cwrdd yr angen a nodwyd, neu os oes angen safleoedd pellach. Mae angen diweddarau CFS/10 er mwyn adlewyrchu hyn.

Claddfeydd

- 5.5.12 Nid yw'r safleoedd a neilltuwyd wedi eu cyflenwi eto. Mae angen sail tystiolaeth wedi ei ddiweddarau er mwyn asesu os oes angen safleoedd newydd a neilltuwyd er mwyn cwrdd yr angen.

Addysg

- 5.5.13 Mae Prosiect Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn mynd rhagddo. Mae un cais am ysgol newydd yng Nghyffordd Llandudno wedi ei gyflwyno a'i gymeradwyo yn ystod y cyfnod cynllunio hyd yn hyn. Gallai'r sail tystiolaeth a'r cynigion moderneiddio olygu fod angen y safleoedd a neilltuwyd. Efallai y caiff ceisiadau am estyn neu ailddatblygu safleoedd ysgol cyfredol eu cyflwyno.

Iechyd

- 5.5.14 Mae newidiadau i strwythur poblogaeth a datblygiadau preswyl newydd yn effeithio ar y lefel o safleoedd gofal sylfaenol a darpariaeth gofal iechyd arall sydd eu hangen. Mae angen adolygu'r sail tystiolaeth er mwyn sicrhau y gall y ddarpariaeth gwasanaeth gadw i fyny gyda'r newid yn y galw. Mae'n bosib y bydd angen dyraniadau er mwyn sicrhau fod angen yn cael ei gwrdd.

Cyfleusterau Cymunedol eraill

- 5.5.15 Bydd sail tystiolaeth ar gyfer cyfleusterau cymunedol eraill yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ble bo'r angen. Mae hyn yn cynnwys hamdden, ieuenticid a llyfrgelloedd.

5.6 Yr Amgylchedd Naturiol

5.6.1 Mae adran Amgylchedd Naturiol y Cynllun Datblygu Lleol yn eang ac yn cynnwys polisiau ar ynni adnewyddadwy, dŵr a pherygl o lifogydd, ansawdd aer a bioamrywiaeth, sy'n gyffredinol wedi cael ymateb da ac wedi'u hwyluso. Er bod y rhan fwyaf o'r polisiau'n bodloni'r targedau Monitro Blynyddol, mae rhai newidiadau sylweddol wedi'u rhagweld drwy'r broses Adolygu.

5.6.2 Mae CBSC yn ymroddedig i ddiogelu a chadw ei dreftadaeth naturiol a'i asedau diwylliannol ar gyfer ei werth ei hun, yn ogystal â'r modd y mae'n denu twristiaid i'r ardal. Wrth fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Conwy, roedd yr Awdurdod hefyd wedi paratoi canllaw cynllunio atodol ar y cyd ar Gapasiti Tirwedd o ran Ardaloedd Cymeriad datblygu tyrbinau gwynt. Mae'r canllaw ychwanegol hwn wedi atgyfnerthu polisiau presennol ac wedi nodi a helpu i ddiogelu'r tirweddau mwyaf sensitif a diamddiffyn.

Newidiadau i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol

5.6.3 Diwygiwyd Polisi Cynllunio Cymru yn Nhachwedd 2016. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi'r dull i helpu Cymru leihau ei allyriadau carbon. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau net yn 2050 o leiaf 80% yn is na'r waelodlin a osodwyd yn y ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy osod targedau dros dro ar gyfer 2020, 2030 a 2040 a chyllidebau carbon 5 mlynedd hyd at 2050. Mae canllaw ar leihau carbon a Chynlluniau Datblygu Lleol yn rhannol gysylltiedig â'r rôl ac mae gofynion yr Asesiadau Ynni Adnewyddadwy'n cael eu trafod isod.

5.6.4 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn cyflwyno Datganiadau Ardal mewn dull newydd i liniaru a rheoli tirwedd lle bydd angen rheoli datblygiad yn ofalus yn unol â chanllaw cenedlaethol ac unrhyw ddynodiadau lleol yn y dyfodol. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2015 yn dal yn y cam drafft cychwynnol ond yn debygol o symud ymlaen drwy 2017-18.

5.6.5 Mae amcanion amgylchedd naturiol a monitro'n barhaus, ond mae rhai gofynion polisi a deddfwriaeth sydd angen eu cynnwys mewn polisiau Cynllun Datblygu Lleol drwy'r Adolygiad newydd. Y prif bwrpas yw diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol lle mae'r datblygiad newydd wedi cael effaith. Fodd bynnag, ystyrir bod y meysydd pwnc angen gwahaniad i roi eglurder i ddefnyddwyr y cynllun. Nid yw TAN 5 "Natur, Cadwraeth a Chynllunio" 2009 wedi'i ddiweddarau ers ei gyhoeddi.

5.6.6 Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn cynnwys y gofyniad i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i asesu'r effeithiau tebygol. Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn seiliedig ar y canllaw Cyfarwyddyd Cynefinoedd Ewropeaidd at y pryd, a bydd hyn yn cael ei ddiwygio yn sgil y Rheoliadau cyfredol.

Ynni adnewyddadwy

5.6.7 Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru – rhifyn 9. Tachwedd 2016 (Polisi Cynllunio Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni Adnewyddadwy. Anfonodd Llywodraeth Cymru lythyr at awdurdodau cynllunio lleol yn 2015 yn amlinellu disgwyliadau'r Gweinidog Adnoddau Naturiol ar gyfer polisiau ynni mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Cyhoeddwyd "Canllaw ymarferol: Cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel – llawlyfr i gynllunwyr" yn 2015, ac mae CBSC wedi bod yn gweithio ochr yn ochr ag ymgynghorwyr i gynnal Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn ardal y Cynllun ac i gyflwyno polisiau i sicrhau bod Ynni Adnewyddadwy'n integredig o gam cynnar o'r broses gynllunio. Yn arbennig, gofyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer polisiau gofodol i adlewyrchu dyheadau Ynni Adnewyddadwy a'i bryder nad oedd awdurdodau lleol wedi bod yn gweithredu'r gofynion hyn yn llawn yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

- 5.6.8 Nid oedd y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol a fabwysiadwy wedi'i ddylanwadu gan y polisiau ynni cyfredol ym Mholisi Cynllunio Cymru gan fod y gofynion wedi'u nodi ychydig ar ôl i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei gyflwyno i'w adneuo. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n datgan y dylai awdurdodau cynllunio lleol hwyluso datblygiad pob ffurf o ynni adnewyddadwy a charbon isel drwy ystyried y cyfraniad y gall eu hardal ei wneud a chreu polisiau Cynllun Datblygu Lleol sy'n galluogi bod y cyfraniad hwn yn cael ei gyflawni. Mae hefyd yn awgrymu bod penderfyniadau rheoli datblygiadau'n gyson â rhwymedigaethau newid hinsawdd rhyngwladol a chenedlaethol.
- 5.6.9 Mae newidiadau diweddar yn cynnwys diwygiad i'r Pecyn Offer Ynni Adnewyddadwy a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Daeth Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn rhan o'r Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiant yng Ngorffennaf 2016. Mae nawr yn gwneud penderfyniadau ar brosiectau Ynni Adnewyddadwy ar raddfa fawr. Mae canllaw cenedlaethol yn Ynni Cymru; Trawsnewidiad Carbon Isel 2012 (diweddarwyd yn 2016). Mae'n amlwg bod newidiadau cyd-destunol sylweddol wedi digwydd o ran ynni adnewyddadwy a charbon isel ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ac mae sawl newid yn cael eu rhagweld ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.
- 5.6.10 Cyhoeddwyd fersiwn diwygiedig o'r Pecyn Offer Ynni Adnewyddadwy gan Lywodraeth Cymru yn 2015 a disgwylir i Asesiadau Ynni Adnewyddadwy ffurfio rhan o sail dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol.
- 5.6.11 Mae'r llythyr a grybwyllwyd o'r blaen yn egluro y dylai Asesiadau Ynni Adnewyddadwy hwyluso polisiau, meysydd chwilio a dyraniadau sy'n arwain cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa awdurdod lleol (5MW – 25MW) neu dechnolegau carbon isel eraill i'r lleoliadau mwyaf addas. Mae'n egluro ei fod yn hanfodol bod y system cynllunio'n nodi ac yn diogelu ardaloedd gyda photensial cynhyrchu ynni adnewyddadwy am y tymor hir.
- 5.6.12 Mae polisi am reoli ac asesu datblygiad tyrbinau gwynt wedi'i ddefnyddio'n dda, fodd bynnag, mae angen diwygiad drwy'r broses adolygu Cynllun Datblygu Lleol. Nid oedd modd goresgyn y mater hwn o ddiffinio 'ynni cyfatebol' ac 'ynni pennaf' fel rhan o'r Canllaw Cynllunio Atodol gan ei fod yn newid hanfodol y polisi. Mae'n amlwg bod newidiadau cyd-destunol sylweddol wedi digwydd o ran ynni adnewyddadwy a charbon isel ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd hwn yn fater allweddol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig a rhagwylir newidiadau polisi.

Tirwedd

- 5.6.13 Mae elfen Tirwedd y Cynllun Datblygu Lleol angen ei diwygio i adlewyrchu Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2016. Bydd mentrau cenedlaethol eraill fel Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru, graddio tir yn Amaethyddol a diogelu mawn hefyd yn dylanwadu ar ddefnydd tir a newid polisi.
- 5.6.14 Byddai polisi Arfordir Treftadaeth yn fuddiol gan fod yna ddynodiad heb unrhyw bolisi cysylltiedig. Byddai polisi dylunio a thirwedd hefyd yn ddefnyddiol gan ei fod angen mwy na chyswllt â DP6 i'w hyrwyddo, a byddai'n caniatáu'r Awdurdod Cynllunio Lleol i geisio dyluniad gwell pan gaiff ei herio â chynlluniau wedi'u dylunio'n wael.

Lletemau Glas

- 5.6.15 Mae'r polisi lletem las yn seiliedig ar ganllaw cenedlaethol ac yn cael ei ystyried yn gadarn ac yn gyson o ran ei ddull. Ei fwriad yw cynnal adolygiad arall o'r meysydd hyn yn y dyfodol, lle gall rhai meysydd newid. Bydd hyn yn cael ei gynnal drwy ddiwygiadau i'r Papur Cefndir presennol.

Systemau Draenio Cynaliadwy

- 5.6.16 Nid yw'r polisi o ran SUDS, Dŵr Budr a Chadwraeth Dŵr wedi newid ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Felly mae'n annhebygol y bydd angen unrhyw newid. Mae angen ystyried Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a bydd y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn cynnwys cyfeiriad at eu gofynion. Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr baratoi Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr sy'n edrych ymlaen 25 mlynedd neu fwy ac yn sicrhau cyflenwad dŵr digonol i'r cyhoedd, a chynnal digon o ddŵr yn yr amgylchedd. Mae'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr cyfredol yn cwmpasu'r cyfnod 2015-2040 ar gyfer ardal Conwy a Dŵr Cymru yw'r cwmni sy'n gweithredu yn ardal y Cynllun.

5.7 Treftadaeth Ddiwylliannol

Y problemau:

Perfformiad Polisi

- 5.7.1 Mae'r polisiâu'n parhau i berfformio'n dda'n gyffredinol. Cytunwyd ar 5 CCA (gan gynnwys dau Gynllun Rheoli Ardal Gadwraeth) ers mabwysiadu'r Cynllun Cyflenwi Lleol (CDLI) sydd yn rhoi canllaw pellach i geiswyr a rhai sy'n gwneud penderfyniad wrth gyflwyno/ asesu ceisiadau. Un mater sy'n peri pryder ar gyfer y dyfodol yw cynhyrchu a mabwysiadu'r Cynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth sy'n weddill o fewn terfyn amser o 24 mis o ddyddiad mabwysiadu'r CDLI, gan fod y dyddiad cau ar gyfer hwn bellach wedi bod. Yn wir, ers mabwysiadu'r CDLI, mae dull y CCA hyn wedi newid lle bydd CDLI unigol i bob Ardal Gadwraeth yn cael eu cynhyrchu yn hytrach na Chynllun Rheoli 'generig' fel y cynlluniwyd i ddechrau. Mae hyn wedi arwain at flaenoriaethu Cynlluniau Rheoli ar y sail o'r angen ac amod presennol i'r Ardal Gadwraeth dan sylw, gyda Chynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth Conwy a Llandudno yn cael ei mabwysiadu i ddechrau, a Bae Colwyn a Llanellian yn mewn drafft wedi ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. O hynny, teimlir nad yw dynodwr monitro CDLI MI/088 yn briodol bellach ar gyfer y ffrwd gwaith hon.
- 5.7.2 Cafodd CCA ar Adeiladu Rhestredig eu hoedi oherwydd cyhoeddiad diweddar Canllawiau Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Adeiladau Rhestredig. Trafodir hyn ymhellach dan 5.6.3.

Newidiadau i Gyfraith Cynllunio – Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2016)

- 5.7.3 Yn genedlaethol, cafodd Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn ffurfio rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisi a chyngor sy'n gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol sydd ar waith i warchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy yng Nghymru. Mae rhai o ddarpariaethau'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n anodd i rhai hynny sy'n difrodi heneb gofrestredig yn anghyfreithlon osgoi cael eu herlyn.
- 5.7.4 Roedd y Ddeddf hefyd yn cyflwyno strwythurau newydd i gefnogi rheolaeth gadarnhaol o newid yn yr amgylchedd hanesyddol. Mae un o fesurau'r Ddeddf yn caniatáu perchnogion a'r awdurdodau perthnasol i drafod trefniadau ar gyfer rheolaeth well o asedau hanesyddol dros nifer o flynyddoedd.
- 5.7.5 Bydd y Ddeddf yn cael ei ategu gan nifer o ddogfennau polisi a chanllaw a fydd yn helpu i reoli amgylchedd hanesyddol Cymru yn gyson gydag arferion cadwraeth gyffredol. Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gyflawni ar bennod 6 diwygiedig Polisi Cynllunio Cymru a TAN24 newydd. Mae ymgynghoriadau eraill yn mynd rhagddynt a disgwylir mwy yn ystod 2017.

Newidiadau i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol - Polisi Cynllunio Cymru (PPW) Pennod 6, TAN 24, Canllawiau Ymarfer Drafft a goblygiadau'r CDLI.

- 5.7.6 Cyhoeddwyd Argraffiad 9 Polisi Cynllunio Cymru ym mis Tachwedd 2016. Mae'r prif faterion o bennod 6 diwygiedig yn Polisi Cynllunio Cymru i gynlluniau datblygu yn ymwneud â Chofnodion Amgylchedd Hanesyddol (HER), Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd, gweddillion archaeolegol, asedau hanesyddol lleol a pharciau a gerddi hanesyddol. Mae TAN 24 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017) a dogfennau Canllawiau Ymarfer (dal mewn drafft ar adeg yr adroddiad hwn) yn ystyriaeth ar hyn o bryd.
- 5.7.7 Mewn perthynas â'r problemau cyntaf a godwyd yn y Polisi Cynllunio Cymru, mae'r Polisi yn datgan bod rhaid defnyddio HER fel ffynhonnell allweddol o wybodaeth i lunio cynlluniau datblygu a chyngor ar eu defnydd, petai angen gan yr Ymddiriedolaethau

Archaeolegol Cymru. Wrth gyflawni SEA a SA, asesiad o dreftadaeth ddiwylliannol (yn ôl HER) yn ofynnol mewn ymgynghoriad â Cadw. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi 'Wrth ymgymryd â'r gwerthusiad (cynaliadwyedd), mae'n rhaid defnyddio sail tystiolaeth ddiweddar, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir gan yr HER ar gyfer yr ardal awdurdod lleol a Chofnod Henebion Cenedlaethol.' Bydd adolygiad o'r CDLI yn gofyn am y broses uchod i sicrhau bod yr holl ddata ased hanesyddol perthnasol wedi cael eu hystyried.

- 5.7.8 Mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig a thirweddau hanesyddol, parciau a gerddi, mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan y dylai bod cynlluniau datblygu, lle mae'n briodol, yn cynnwys polisiau *penodol yn lleol* ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd adeilad, gan gynnwys gwarchod neu wella ardaloedd cadwraeth adeiladau rhestredig a pharciau a gerddi hanesyddol. Gan fod y Canllawiau Ymarfer drafft ar Adeiladau Rhestredig wedi'u cyhoeddi, mae'n cael ei ystyried nad oes angen ail-wneud hyn yn y ffurf o bolisi cynllunio a CDLI. Gellir dweud yr un fath am dirweddau, parciau a gerddi oni bai bod proses adolygu yn nodi materion sy'n benodol i Gonwy.
- 5.7.9 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio bod Safleoedd Treftadaeth y Byd wedi cael eu harsgrifio gan UNESCO oherwydd eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol, ac mae'n rhaid i gynlluniau datblygu adlewyrchu hyn. Mae sail tystiolaeth newydd yn ymddangos yn y ffurf o Gynllun Rheoli ar gyfer y Cestyll a Muriau Tref Brenin Edward yn Safle Treftadaeth Y Byd Gwynedd, wedi'i gynhyrchu gan Cadw. Sonir am hyn yn fwy manwl yn 5.6.4 isod.
- 5.7.10 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod gweddillion archaeolegol a'u lleoliadau, mewn amgylchiadau priodol, gweddillion archaeolegol heb ei drefnu o bwysigrwydd lleol a'u lleoliad, yn gallu cael eu hadnabod mewn cynlluniau datblygu o bwysigrwydd lleol ac yn deilwng o gadwraeth. Mae'n rhaid dweud efallai bydd awdurdodau cynllunio lleol yn datblygu canllaw cynllunio atodol i ddarparu manylion pellach ar unrhyw weddillion archeolegol penodol lleol a'u lleoliad yn cael eu cynnwys fel polisi mewn cynlluniau datblygu. Dylai ymgynghoriad gyda'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol nodi unrhyw weddillion archaeolegol heb eu trefnu ac a fyddent yn haeddu cael eu gwarchod yn y CDLI.
- 5.7.11 Adnabyddir yn y Polisi Cynllunio Cymru'r dymunoldeb o asedau hanesyddol dynodedig yn lleol. Mae gan y CDLI bolisi (CTH/3) a CCA cysylltiedig eisoes mewn lle mewn perthynas â hyn. Disgwylir bod y polisi hwn a CCA yn cael ei gadw, ond gall y CCA gael mantais o adolygu er mwyn symleiddio'r broses o restru lleol.
- 5.7.12 Mae paragraff 6.5.30 o CCA yn gosod meini prawf i roi cynlluniau i alluogi datblygiad. Mae gan y CDLI bolisi ar hyn o bryd ar Alluogi Datblygiad (CTH/4) a CCA cysylltiedig. Bydd y rhain angen eu hadolygu i sicrhau eu bod yn unol â chanllaw cenedlaethol tra ddim yn ail-adrodd canllaw o'r fath.

Cynlluniau Rheoli Safle Treftadaeth Y Byd

- 5.7.13 Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli newydd ar gyfer Cestyll a Muriau Tref Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd yn ddiweddar gan Cadw. Roedd yr argymhellion o fewn y cynllun gweithredu yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau cynllunio lleol i weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu CCA ar y cyd wedi seilio ar gynnwys y Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd. Felly bydd y CDLI angen mynd i'r afael ag argymhellion yn y Cynllun Rheoli a darparu mecanweithiau ar gyfer mabwysiadu'r polisi a CCA.

Yr Iaith Gymraeg – Newidiadau i Bolisi/ Deddfwriaeth

- 5.7.14 Er archwiliad o CDLI Conwy, mae'r polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg wedi newid, gyda chyhoeddiad o'r TAN20 newydd (Hydref 2013) a CCA diwygiedig. CCA paragraff 2.4.4 Ffigwr 4.1, adran 4.13, paragraff 9.2.2, 9.2.0. Yn ychwanegol, mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn rhoi ystyriaeth i'r angen i ystyried yr iaith Gymraeg drwy baratoi cynllun a rheoli datblygiad.
- 5.7.15 Ymgynghorwyd ar TAN20 drafft newydd, a bydd yn cael ei ddiweddarau o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol. Bydd yr adolygiad CDLI yn ystyried pob canllaw newydd ac arfaethedig.

Yr Iaith Gymraeg – goblygiadau'r Adolygiad CDLI

- 5.7.16 Bydd yr Adolygiad CDLI angen cynnwys Asesiad o Effaith y Gymraeg fwy manwl na'r un a gyflawnwyd cyn mabwysiadu'r Cynllun presennol. Mae hyn i alinio'r polisiau â'r gofynion CCA a TAN20 i gynnwys y gwaith hwn ac osgoi yr angen am asesiad o effaith gael ei gyflwyno gyda cheisiadau cynllunio heblaw nifer cyfyngedig o achosion.
- 5.7.17 Bydd angen newid Polisi CTH/5 a mapiau cynigion CDLI i adlewyrchu'r newidiadau i ganllaw cenedlaethol ac i ystyried canlyniadau'r Asesiad o Effaith y Gymraeg strategol newydd, ar ôl ei gwblhau. Gall hyn gynnwys adnabod meysydd sensitif o ran iaith; ceisiadau sylweddol o fewn yr ardaloedd hynny i ddatblygiadau nas ragwelir fel rhan o'r CDLI newydd a fabwysiadwyd y byddai'n destun asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

5.8 Cludiant Cynaliadwy

- 5.8.1 Mae newidiadau allweddol yn cynnwys Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (2017), Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio (2009-2013) a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.
- 5.8.2 Adolygwyd Polisi Cynllunio Cymru ym mis Tachwedd 2016 hefyd. Mae Strategaeth a Gweledigaeth Dwf ar gyfer Economi Gogledd Cymru (2016) a Chynllun Corfforaethol Conwy hefyd wedi'u cyflwyno. Mae'r amcanion cludiant cynaliadwy allweddol yn debyg i'r rhai blaenorol, ond mae rhai gofynion polisi a deddfwriaeth newydd y mae angen eu cynnwys ym mholisiau'r CDLI.
- 5.8.3 Daeth y wybodaeth wrth baratoi'r CDLI mabwysiedig, yn rhannol, o Gynllun Cludiant Rhanbarthol Conwy ac mae Cynllun Cludiant ar y Cyd Gogledd Cymru hefyd yn cael ei adolygu, a fydd yn pennu rhai agweddau o adolygiad y CDLI. Bydd prosiectau sy'n gysylltiedig â datblygu o fewn y CDLI neu rai yr ystyrir bod modd eu darparu fel arall o fewn cyfnod y Cynllun hefyd wedi'u cynnwys.
- 5.8.4 Nid yw'r cynlluniau cludiant blaenoriaethol a nodir yng Nghynllun Cludiant ar y Cyd Gogledd Cymru'n cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y CDLI ac felly mae angen ystyried goblygiadau cynlluniau felly ar bolisiau ac ar ddefnyddio tir er mwyn sicrhau bod modd eu cyflawni yng nghyd-destun polisi lleol.
- 5.8.5 Nid yw diogelu cludiant rheilffyrdd yn cael ei ddefnyddio ac ystyrir y gellid cael gwared â'r polisi.

Cynllun Teithio Llesol

- 5.8.6 Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Tachwedd 2013, gan ei wneud yn gyfreithiol ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru wella cyfleusterau a llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr (defnyddwyr di-fodur) yn barhaus mewn aneddiadau sydd â phoblogaeth o 2,000 neu fwy o fewn ardal adeiledig. Bydd angen llunio polisi defnyddio tir i ategu, amddiffyn a gwella'r elfennau a nodir yng Nghynllun Teithio Llesol Conwy a'i Fapiau Rhwydwaith Integredig o fewn y CDLI.

5.9 Mwynau a Gwastraff

Y problemau:

Perfformiad Polisi

- 5.9.1 Ar y cyfan, o ystyried y newidiadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff a wnaethpwyd ar ôl mabwysiadau'r CDLI, mae'r polisi strategol (MWS/1) yn denau gan nad yw'n cyfeirio at egwyddorion yr hierarchaeth gwastraff, ac mae angen mynd i'r afael â hynny. Byddai'r polisi hefyd yn fwy defnyddiol petai'n canolbwyntio mwy ar gyfleusterau gwastraff newydd. Efen arall sydd angen ei hymhelaethu yw lleihau gwastraff a rheoli ailgylchu. Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 12.6.3) a TAN 21 yn gofyn i gynlluniau datblygu lleol chwilio am gyfleoedd i leihau, ailgylchu a storio gwastraff yn ystod cam dylunio datblygiadau. Ar hyn o bryd ceir cysylltiad rhwng Polisi DP1 a MWS/1 ond ystyrir y gall y polisi ym mhennod Mwynau a Gwastraff fynd gam ymhellach i fynd i'r afael â hyn a darparu sylfaen bolisi bellach ar gyfer y CCA ar Storio a Chasglu Gwastraff mewn Datblygiadau Newydd.
- 5.9.2 O ran mwynau, mae Adolygiad Cyntaf y Datganiad Technegol Rhanbarthol (2014) yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer pob awdurdod lleol sy'n wahanol i'r rhai a nodwyd yn Natganiad Technegol Rhanbarthol 2009 mewn rhai achosion (y drysorfa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r CDLI). Fodd bynnag, mae'r cyngor ar gyfer Conwy'n parhau'r un fath o ystyried y cronfeydd helaeth o greigiau caled sy'n parhau a dosbarthiad tywod a graean. Felly mae polisiâu MWS/2, MWS/3 a MWS/4 yn dal yn berthnasol oherwydd eu bod yn adlewyrchu'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf, er y gallan nhw fanteisio ar ganllaw cynllunio atodol.
- 5.9.3 Ysgrifennwyd Cynllun Datblygu Lleol Conwy yng nghyd-destun Adolygiad Cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol a pholisiâu MWS/5 a MWS/6 a sefydlwyd y dangosydd monitro a lefelau sbardun gan ddefnyddio'r gofynion capasiti yn Adolygiad Cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Mae'r cyfrifiadau capasiti sydd yn Adolygiad 1af y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn hen ac mae polisi cenedlaethol wedi dod yn eu lle. Mae'r polisi cenedlaethol bellach yn gofyn i gynlluniau datblygu lleol ystyried gwastraff fel rhan o adolygiad tir cyflogaeth.
- 5.9.4 Mae Polisi MWS/5 yn cynnwys prawf sydd angen cynigion i ddangos eu bod yn diwallu galw a nodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol neu alw sy'n codi ar lefel leol. Ers dileu'r gofyniad i gynhyrchu ac ystyried Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol o'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol, gallai cymhwyso'r prawf hwn yn llym arwain at gymeradwyo cynigion sy'n groes i'r polisi a/neu ganllawiau cenedlaethol. Mae'r polisi cenedlaethol a'r canllawiau diwygiedig yn ceisio atal darparu gormod o rai mathau o gyfleusterau e.e. gwaredu ac adfer. Felly, o fewn y canllawiau diwygiedig, mae'r 'angen' mewn perthynas â mathau eraill o gyfleusterau yn dod yn berthnasol pan fo cynnig y tu allan i safle a neilltuwyd, ac yn fwy tebygol o fod yn angen lleol. Argymhellir bod y polisi hwn yn cael ei ddiwygio yn ystod yr adolygiad o'r CDLI er mwyn gallu mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn ac i sicrhau bod y prawf 'angen' yn cael ei gymhwyso yn unol â TAN 21. Felly bydd angen adolygu a diweddarau MWS/5 yn unol â'r sylfaen dystiolaeth bresennol i sicrhau bod y CDLI yn bodloni unrhyw ofynion newydd.
- 5.9.5 Er bod polisiâu a chanllawiau cenedlaethol wedi newid mewn perthynas â rheoli gwastraff, ystyrir bod polisiâu MWS/6 a MWS/7 wedi bod yn ddigon hyblyg hyd yma i ddarparu seilwaith gwastraff. Fodd bynnag, o ystyried y sy'n defnyddio safleoedd a neilltuwyd a'r problemau posibl o ran darparu, efallai y byddai angen galw am safleoedd newydd / ystyried cwota o dir fel rhan o'r galw am safleoedd cyflogaeth yn ystod yr adolygiad o'r tir cyflogaeth. Mae TAN 21 hefyd yn nodi angen i gynlluniau datblygu lleol neilltuo safleoedd 'chwarel drefol' ar gyfer storio gwastraff anadweithiol.

- 5.9.6 O ran tirlenwi, mae yna le yn rhanbarthol a rhagwelir, oherwydd cynnydd mewn cyfraddau ailgylchu, y bydd hyn yn dal yn wir drwy gydol oes y CDLI. Mae TAN 21 yn nodi trothwy o 7 mlynedd (y lefel lle dylid cynnal capasiti gwagle) a throthwy 5 mlynedd (pan fo angen gweithredu i ddarparu cyfleuster tirlenwi yn y dyfodol). Mae'r monitro rhanbarthol yn nodi a yw'r trothwyon hyn wedi eu cyrraedd a hyd yma mae'r gwagle yn y rhanbarth ymhell o gyrraedd y trothwyon. Felly nid oes angen cynnal astudiaeth i chwilio am safleoedd tirlenwi na neilltuo rhagor o safleoedd tirlenwi, ond bydd y sefyllfa yn cael ei hadolygu'n gyson.
- 5.9.7 Mae polisi MWS/8 yn dal yn berthnasol oherwydd y safle tirlenwi yn Llanddulas. Cafwyd ymholiad ynglŷn ag a oes angen cynnwys rhywfaint o eiriad y testun ategol yn y polisi ei hun. Bydd hyn yn cael sylw yn ystod yr adolygiad.

Newidiadau i Ganllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru) Pennod 12 (Chwefror 2014) Pennod 14 (Ionawr 2016) a TAN 21 (Chwefror 2014)

- 5.9.8 Ers mabwysiadu'r CDLI mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig sy'n cynnwys adran ddiwygiedig am wastraff ym Mhennod 12. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi diwygio TAN 21 (Chwefror 2014) gan ddiddymu'r gofyniad i gynhyrchu Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a'r angen i gynlluniau datblygu ystyried y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol perthnasol.
- 5.9.9 Mae TAN 21 yn cynnwys gofyniad rhanbarthol i fonitro cynnydd a lefel y galw. Dylai'r trefniadau monitro hyn gael eu sefydlu gyda'r nod o gyhoeddi Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff blynyddol i egluro'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r galw am gyfleusterau gwaredu ac adfer. Mae Adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarthol interim (2013/14) wedi ei gynhyrchu ar gyfer gogledd Cymru yn ogystal ag adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarthol drafft (2014/15). Mae'r adroddiad interim yn nodi nad oes unrhyw ofyniad ychwanegol ar gyfer capasiti gwaredu o fewn y rhanbarth, fel yr adlewyrchir uchod mewn perthynas â thirlenwi. Mae'r ddau adroddiad uchod hefyd yn dod i'r casgliad y dylid asesu unrhyw gynnydd ar gyfer cyfleusterau gwastraff gweddilliol yn ofalus i sicrhau na fyddai gormod o gyfleusterau yn cael eu darparu.
- 5.9.10 Er mwyn sefydlu pa ddangosyddion monitro a throthwyon a fyddai'n briodol, caiff gofynion isod TAN 21 eu hystyried. Mae TAN 21 yn gofyn i gynlluniau datblygu lleol:
- a) ganfod a oes angen cefnogaeth ar gyfer unrhyw raglen gaffael awdurdodau lleol;
 - b) a oes angen mynd i'r afael ag unrhyw gytundeb sydd wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarthol ar ffurf dyraniad safle; ac
 - c) a oes unrhyw gyfle yn bodoli i fanteisio ar gyd-leoli a datblygu rhwydweithiau gwres.
- 5.9.11 O ran a), yn ystod datblygu'r CDLI rhoddwyd ystyriaeth i ofynion gofodol rhaglenni caffael yr awdurdod lleol, sef Prosiect Gwastraff Bwyd Gogledd Ddwyrain Cymru, cydweithrediad rhwng Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy i drin gwastraff bwyd, a Phrosiect Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, cydweithrediad rhwng Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn i drin gwastraff gweddilliol. Ni nodwyd unrhyw ofynion gofodol o fewn Conwy ar gyfer Prosiect Gwastraff Bwyd Gogledd Ddwyrain Cymru na Phrosiect Partneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Fodd bynnag, dylid cadw llygad ar y mater hwn yn enwedig gan fod modd i ofynion cefnogi seilwaith newid. Argymhellir y dylid ymgynghori â'r Rheolwr Gwastraff i ganfod beth yw'r angen yn lleol ac a oes modd cynnwys hynny yn yr adolygiad o'r CDLI.
- 5.9.12 O ran pwynt b), mae'r Adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarthol Interim a'r Adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarthol Drafft yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw angen pellach am gapasiti gwaredu yng ngogledd Cymru ac y dylid asesu unrhyw gynnydd ar gyfer

cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol yn ofalus er mwyn sicrhau na fyddai'r cyfleusterau yn arwain at orddarpariaeth. Fodd bynnag, dylid adolygu'r mater hwn.

- 5.9.13 Wrth ystyried pwynt c), nid yw Prosiect Partneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru wedi nodi unrhyw ofyniad gofodol ar gyfer Conwy a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleuster ar Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, lleoliad sydd hefyd yn cynnig cyfleoedd posibl ar gyfer datblygu rhwydweithiau gwres. Mae angen cydbwysedd rhwng bod â digon o gapasiti i reoli sgil-gynhyrchion gwastraff gweddilliol a bod â gorddarpariaeth, ac mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn rhybuddio yn erbyn hyn. Felly, dylai cynigion ar gyfer cyfleusterau o'r fath gael eu profi'n drwyadl er mwyn sicrhau y byddent yn cwrdd ag angen gofynnol ac na fyddent yn arwain at orddarpariaeth. Felly, er ei bod yn bwysig cydnabod y cyfleoedd posibl a allai fodoli yn y Fwrdeistref Sirol, ystyrir nad oes angen cynnwys dyraniad penodol ar hyn o bryd.
- 5.9.14 O ran monitro, mae TAN 21 (paragraff 3.22) yn argymhell y dylai safleoedd a ddefnyddir ar gyfer rheoli gwastraff gael eu monitro fel rhan o broses yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Dylid hefyd ystyried elfennau eraill fel yr angen am safleoedd adfer a gwaredu fel testun adolygiad polisi, a fyddai'n cael ei sbarduno gan newid cyd-destunol sylweddol a nodir yn yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff.

6 Arfarniad o Gynaliadwyedd

- 6.1 Mae angen i'r Cyngor arfarnu cynaliadwyedd ei strategaeth a pholisïau defnydd tir arfaethedig ar bob cam o broses y Cynllun Datblygu Lleol. Gwneir hyn drwy gyhoeddi Arfarniad Cynaliadwyedd sy'n cynnwys themâu allweddol yr asesiad Amgylcheddol Strategol. Cynhaliwyd Arfarniad Cynaliadwyedd o'r CDLI presennol cyn ymgynghori ac fe'i hystyriwyd gan yr Arolygydd. Mae hwn ar gael yn: www.conwy.gov.uk/cdli/bp10
- 6.2 Mae gofyniad cyfreithiol ar y Cyngor i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd o'r CDLI i sicrhau bod ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn cael eu hystyried ar bob cam o gynhyrchu'r ddogfen. Caiff yr Arfarniad Cynaliadwyedd ei ddatblygu mewn ffordd sy'n golygu y bydd yn cydymffurfio â gofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol Ewropeaidd, gan drawsnewid y Gyfarwyddeb yn gyfraith y DU.
- 6.3 Prif amcanion Arfarniad Cynaliadwyedd llawn fydd rhoi sylw i'r canlynol:
- Sicrhau bod y CDLI yn ystyried polisïau, cynlluniau a rhaglenni ar raddfa ryngwladol, cenedlaethol a lleol.
 - Sefydlu asesiad sylfaenol o Gonwy, gan amlinellu nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a chodi unrhyw faterion y bydd rhaid i'r Cynllun gyfrif amdanynt.
 - Creu fframwaith cynaliadwyedd sy'n parchu cynaliadwyedd Conwy. Profi safleoedd a pholisïau fel rhan o'r CDLI yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd Conwy i asesu effaith yr opsiynau polisi, gan gynnwys y dewis a fferrir.
 - Sicrhau bod dewisiadau amgen realistig ac ystyrlon yn cael eu profi fel rhan o'r broses, gan fyfyrio ar welliannau posibl i'r CDLI
- 6.4 Bydd angen i'r adroddiad cwmpasu gwmpasu amrywiaeth o wybodaeth i ddangos cysonder gyda Chyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r Adolygiad o baratoi'r CDLI a chamau'r Arfarniad Cynaliadwyedd (gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol) wedi'u hamlinellu yn Nhabl 1 isod:

Rhag-gynhyrchu'r Cynllun Lleol – Arfarniad Cynaliadwyedd Cam A: Gosod y cyd-destun ac amcanion, sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar y cwmpas.		
Cam Disodli CDLI	Camau Arfarniad Cynaliadwyedd	Proses Arfarniad Cynaliadwyedd
Adroddiad Adolygiad	A1: Nodi polisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill ac amcanion cynaliadwyedd.	Dod ag amrywiaeth o wybodaeth ynghyd i roi sylw i gyfyngiadau posibl a dylanwadu ar ddewisiadau.
	A2: Casglu gwybodaeth waelodlin	Helpu i nodi problemau cynaliadwyedd drwy greu dangosyddion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd.
	A3: Nodi materion a phroblemau cynaliadwyedd.	Cyfle i ddiffinio materion allweddol ar gyfer y CDLI a dod ag unrhyw anghysonderau posibl ymlaen a allai godi.

	A4: Datblygu fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd.	Mae'r fframwaith yn darparu ffordd gellir arfarnu'r effeithiau cynaliadwyedd.
	A5: Ymgynghori ar gwmpas yr Arfarniad Cynaliadwyedd.	Gofyn am farn gan gyrrff statudol yn yr ymgynghoriad 6 wythnos.

Mae'r cam hwn yn dod ag amrywiaeth o wybodaeth ynghyd i fynd i'r afael â chyfyngiadau posibl a dylanwadu ar ddewisiadau ar gyfer newid.

6.5 Caiff Adroddiad Cwmpasu ei baratoi i fodloni'r camau a amlinellir yng nghanllawiau'r ODPM. Caiff sylw ei roi i bob un o feysydd pwnc yr Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd a fydd yn ystyried y fframwaith deddfwriaethol a'r cyd-destun lleol. Caiff unrhyw faterion cynaliadwyedd nodedig sy'n codi ym mhob adran eu nodi hefyd a chaiff dangosyddion eu diffinio a fydd yn cynorthwyo i brofi cynigion yn y CDLI i ddeall effeithiau tebygol.

6.6 Beth fydd cwmpas yr Arfarniad Cynaliadwyedd?

Mae angen i'r Arfarniad Cynaliadwyedd arfarnu effeithiau cynlluniau sy'n dod i'r amlwg yn erbyn nifer o amcanion thematig sy'n gyfrifol am effeithiau amgylcheddol economaidd a chymdeithasol datblygiad. Mae Atodiad 1 Cyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn dosbarthu'r meysydd canlynol fel materion y dylai'r Arfarniadau Cynaliadwyedd roi sylw iddynt er mwyn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb.

- Ansawdd Aer
- Bioamrywiaeth
- Lliniaru Newid Hinsawdd
- Cymunedau a Lles
- Economi a Chyflogaeth
- Tai
- Tirwedd a Threftadaeth Diwylliannol
- Pridd
- Cludiant a Hygyrchedd
- Gwastraff
- Dŵr (gan gynnwys Perygl o Lifogydd)

6.7 O ran cynlluniau, polisiau a rhaglenni, bu newid cyd-destunol sylweddol ers 2007 fel cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 er enghraifft. Mae diweddariadau wedi'u gwneud i ddogfennau polisi a chanllawiau cenedlaethol allweddol fel Polisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol a Llawlyfr y CDLI.

6.8 Bydd yr adroddiad cwmpasu yn asesu unrhyw heriau lleol ar sail y sefyllfa bresennol, ac amlinellu'r materion tebygol a allai godi fel rhan o unrhyw gynllun yn y dyfodol. Ymgynghorir ar y ddogfen gyda rhan-ddeiliaid allweddol, gan gynnwys asiantaethau amgylcheddol ac awdurdodau cyfagos. Gwneir hyn fel rhan o ymgynghoriad o 6 wythnos o leiaf.

6.9 Mae data amgylcheddol yn cael ei ddiweddarau'n barhaus hefyd. Mae arsylwadau cychwynnol yn dangos y bydd gan CDLI diwygiedig amodau amgylcheddol a chymdeithasol tebyg ond heriau wedi'u haddasu i'w hystyried. Mae'n bosibl y bydd cwmpas i buro'r Amcan Strategol y caiff y Cynllun ei asesu yn ei erbyn yng ngoleuni'r wybodaeth wedi'i diweddarau.

7 Cynlluniau ar y Cyd

- 7.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn caniatáu i ddau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol baratoi gynlluniau datblygu ar y cyd os ydynt yn dymuno gwneud hynny. At hyn, mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn rhoi pŵer i weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i gynhyrchu cynlluniau datblygu ar y cyd. Ymhellach i hyn, mae rhoi ystyriaeth i gynlluniau ar y cyd hefyd wedi ei gynnwys yn 'Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol' (Rhifyn 2, Awst 2015) Llywodraeth Cymru ac ym Mhapur Gwyn 'Diwygio'r Llywodraeth Lleol: Cadernid ac Adnewyddiad (Ionawr 2017)'.
- 7.2 O ystyried y newidiadau cyd-destunol a deddfwriaethol hyn, mae angen ystyried cydweithio a pharatoi cynlluniau gydag awdurdodau lleol cyfagos. Mae Conwy wedi ymchwilio i nifer o ddewisiadau posibl ar gyfer CDLI ar y cyd, y cam cyntaf oedd canfod ar ba gam o'r broses baratoi yr oedd awdurdodau lleol cyfagos arno ym mis Awst 2017.
- 7.3 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar hyn o bryd ar y cam Cynllun Adneuo yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd ag adolygiad dethol. Oherwydd amseriad paratoi'r cynllun nid yw'n bosibl llunio cynllun ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Er gwaethaf hyn, mae Conwy yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'r Parc, yn arbennig wrth lunio polisiau priodol a dyrannu tir o fewn yr ardaloedd a rennir.
- 7.4 Cyngor Sir Ddinbych yw'r unig awdurdod sy'n cynnig cyfle i lunio cynllun ar y cyd, o ystyried amseriad dechrau cam adolygu'r CDLI (Mehafin 2017), y ffiniau a rennir a'r materion trawsffiniol. Fodd bynnag, mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol hefyd yn gyrrff annibynnol a hunanlywodraethol. Mae gan y ddau gyfeiriad strategol i fynd i'r afael â heriau, materion a chyfleoedd penodol, fel y nodir yn eu rhaglenni a'u cynlluniau corfforaethol a lles. Gan fod cydymffurfio â dogfennau bwrdeistref sirol yn ofyniad ac yn 'brawf o gadernid' wrth baratoi CDLIau, nid yw'r Adolygiad o'r CDLI yn debygol o fod yn fyr nac yn integredig.
- 7.5 Yn ogystal, mae anawsterau cynllunio ar y cyd hefyd yn codi o ganlyniad i baratoi cynlluniau a pholisiau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dal yn cael ei ddatblygu ac mae datblygiad Cynllun Datblygu Strategol yr A55 yn dal yn aros am benderfyniad rhanbarthol. Er gwaethaf yr ansicrwydd cenedlaethol a rhanbarthol hyn, mae Conwy yn credu y byddai cynnal adolygiad o'r CDLI rŵan yn debygol o effeithio ar eu cynnydd. Er enghraifft, bydd CDLI Conwy yn destun adolygiad yn y dyfodol, ar adeg y gallai adlewyrchu newidiadau mewn canllawiau rhanbarthol a chenedlaethol.
- 7.6 Mae Conwy eisoes wedi dweud bod yna frys mawr i adolygu CDLI Conwy, yn bennaf oherwydd effaith y newidiadau i Nodyn Cyngor Technegol 1 'Cydastudiaethau Argaeledd Tir Ar Gyfer Tai' a'r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai. Byddai paratoi cynllun ar y cyd rŵan yn arwain at oedi pellach, yn gwaethygu'r diffyg pum mlynedd ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar ardaloedd tir glas mewn perthynas â datblygiadau hapfasnachol.
- 7.7 O ystyried yr ansicrwydd hwn a'r heriau a nodwyd uchod, a'rfaith bod y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn cefnogi adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol Conwy, ni ystyrir bod CDLI ar y cyd yn ddewis addas ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r ddau dîm cynllunio strategol wedi datblygu perthynas waith eang sy'n cynnwys paratoi sylfaen dystiolaeth ar y cyd a dod i ddeall effeithiau a threfniadau lliniaru trawsffiniol. Bydd y berthynas yma'n parhau ac yn datblygu ymhellach yn y dyfodol.

8 Casgliad

- 8.1 Er bod sawl rhan o'r CDLI a'r CCAu yn gweithredu'n effeithiol, am nifer o resymau, gan gynnwys ffactorau allanol, nid yw elfennau penodol o'r Strategaeth Ofodol sy'n tanategu'r CDLI yn cael eu darparu. Er bod yr amodau economaidd yn gwella, mae ansicrwydd o hyd ynghylch pryd ac a fydd cyfraddau darparu yn cyrraedd y lefel angenrheidiol i fodloni gofynion y strategaeth. Felly mae angen ailystyried cyfraddau a strategaethau twf er mwyn llunio strategaeth briodol i ddarparu twf realistig a chynaliadwy drwy gydol cyfnod y cynllun diwygiedig.
- 8.2 Mae'n rhaid i'r broses adolygu ystyried deddfwriaethau sylfaenol ychwanegol fel Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ynghyd â newidiadau i'r gyfundrefn les, lefelau twf posibl a diwygiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol; gan gynnwys newidiadau pellach sy'n dod i'r amlwg yn ystod yr adolygiad. Hefyd, cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 hierarchaeth newydd o gynlluniau datblygu, gan gynnwys Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol, a fydd â goblygiadau sylweddol ar gynnwys a swyddogaeth unrhyw CDLI newydd.
- 8.3 Mae'r adroddiad adolygu yn amlinellu'r angen am gynnal arolwg o strategaeth y CDLI. O ganlyniad bydd y cynllun yn destun adolygiad llawn a bydd CDLI newydd yn cael ei baratoi. Er bod sawl rhan arall o'r CDLI yn gweithredu'n effeithiol, bydd newidiadau cyd-destunol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, penderfyniadau apeliadau a deddfwriaethau, polisïau a chanllawiau newydd yn gofyn am adolygu polisïau a dyraniadau penodol yn y cynllun.

Atodiad 1 – AMB Crynodeb Perfformiad

1 Egwyddorion Datblygu

Dangosydd Monitro		2014/15	2015/16
MI/001	% o'r datblygiadau tai a ddatblygwyd yn Ardaloedd y Strategaeth Datblygu Trefol a Gwledig (ASDT - ASDG) i ddiwallu'r gofynion newid poblogaeth a ragwelir..		
MI/002	% o'r tir cyflogaeth a ddatblygwyd yn Ardaloedd y Strategaeth Datblygu Trefol a Gwledig i ddiwallu'r gofynion newid poblogaeth a ragwelir.		
MI/003	Nifer y datblygiadau newydd (ha) a ganiateir drwy drawsnewid ac ailddatblygu tir llwyd fel % o'r holl ddatblygiadau a ganiateir.		
MI/004	Cyfanswm y troseddau a adroddwyd yn ôl math.		
MI/005	Nifer o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd heb gydymffurfio â Chanllawiau Cynllunio Atodol perthnasol (e.e. CCA Dylunio) neu Friff Cynllunio		
MI/006	Cyfanswm yr ymrwymadau llwyddiannus a drafodwyd gyda datblygwyr.		
MI/007	Cyfanswm y ceisiadau cynllunio a gymeradwyir yn erbyn Polisi DP/6 - 'Canllawiau Cenedlaethol'.		
MI/008	Paratoi a Mabwysiadu'r CCA Dylunio		
MI/009	Yr arwynebedd o dir maes glas a manau agored a gollwyd i ddatblygiadau (ha) na ddyrannwyd yn y CDLI, neu yn unol â Pholisi'r CDLI		

2 Y Strategaeth Dai

Dangosydd Monitro		2014/15	2015/16
MI/010	Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad gyffredinol net a adeiladwyd yn ychwanegol bob blwyddyn.		
MI/011	5 Mlynedd o Gyflenwad Tir ar gyfer Tai		
MI/012	Nifer y safleoedd wrth gefn a ryddhawyd, ar sail Lleoliad: Rhoddir blaenoriaeth i ryddhau un neu fwy o safleoedd wrth gefn yn yr un ardal gyffredinol lle y caiff diffyg ei nodi; Nifer: Dylai'r safle wrth gefn a ryddhawyd allu darparu'r niferoedd bras o anheddau sydd eu hangen; Gallu i ddarparu: Dylid gallu darparu safle wrth gefn o fewn y cyfnod a ragwelir.		
MI/013	Nifer yr anheddau gwag y gwnaed defnydd ohonynt unwaith eto.		
MI/014	Faint o ddatblygiad tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd (a) fel % o ddyraniadau tai'r cynllun datblygu a (b) fel % o gyfanswm datblygiadau tai a ganiateir.		
MI/015	Dwysedd cyfartalog y datblygiadau tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun datblygu.		
MI/016	Nifer y cynlluniau tai sy'n datblygu mathau o dai a meintiau yn erbyn y dystiolaeth a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a/neu Cofrestrau Tai Cymdeithasol/Fforddiadwy.		
MI/017	Nifer y tai fforddiadwy a ganiateir drwy 'safleoedd eithriadau'.		
MI/018	Nifer y ceisiadau am Dai Amlfeddiannaeth sy'n cyflawni caniatâd cynllunio.		

MI/019	Paratoi a mabwysiadu CCA ar dai fforddiadwy.		
MI/020	Paratoi a mabwysiadu CCA ar fflatiau hunangynhwysol		
MI/021	Nifer y ceisiadau preifat / Cyngor cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a roddwyd ac a wrthodwyd yn unol neu'n groes i Bolisi HOU/9		
MI/022	Darparu safle sipsiwn a theithwyr		
MI/023	Cynnal asesiad o anghenion safle ar gyfer teithwyr sioe.		

3 Y Strategaeth Economaidd

Dangosydd Monitro		2014/15	2015/16
MI/024	Lefelau Diweithdra Blynnyddol		
MI/025	Nifer trigolion ardal y cynllun sydd mewn gwaith.		
MI/026	Datblygiad tir cyflogaeth blynnyddol yn Ardal y Strategaeth Datblygu Trefol.		
MI/027	Datblygu tir cyflogaeth y flwyddyn yn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig.		
MI/028	Nifer trigolion Conwy sy'n cymudo allan i weithio mewn lleoliadau y tu allan i ardal y Cynllun		
MI/029	Maint y tir cyflogaeth newydd a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd yn y cynllun datblygu (a) fel % o holl ddyraniadau cyflogaeth y cynllun datblygu a (b) fel % o gyfanswm y datblygiadau a ganiateir (ha ac unedau).		
MI/030	Paratoi a mabwysiadu CCA ar addasiadau gwledig.		

4 Twristiaeth

Dangosydd Monitro		2014/15	2015/16
MI/031	Lefel o lety â gwasanaeth o fewn Parthau Llety Gwyliau.	Parth 1	
		Parth 2	
		Parth 3	
		Parth 4	
		Parth 5	
MI/032	Safleoedd Chalets, Carafanau a Gwersylla newydd yn Ardal y Strategaeth Datblygu Trefol a dderbyniodd ganiatâd yn erbyn Polisi.		
MI/033	Safleoedd Cabanau, Carafannau a Gwersylla newydd yn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig a dderbyniodd ganiatâd yn erbyn Polisi.		
MI/034	Ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer safleoedd carafannau, cabanau gwyliau a gwersylla presennol a roddwyd yn groes i argymhelliad y swyddogion.		
MI/035	Nifer y penderfyniadau yn cefnogi colli cyfleusterau twristiaeth yn groes i argymhelliad y swyddogion.		

5 Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol

Dangosydd Monitro		2014/15	2015/16
MI/36	Canran o unedau gwag o fewn y prif ardaloedd siopa a pharthau siopa.		
MI/37	'Clystyru' defnyddiau nad ydynt yn rhai A1 yn y prif ardaloedd siopa a'r ardaloedd siopa		
MI/38	Nifer y ceisiadau newydd am ofod llawr manwerthu nwyddau nad ydynt yn swmpus y tu allan i ganolfannau a ddiffiniwyd yn yr hierarchaeth manwerthu.		
MI/39	Canran yr unedau A1 mewn Prif Ardaloedd Siopa.		
MI/40	Colli cyfleusterau cymunedol y tu allan i Llandudno a chanol trefi.		
MI/41	Nifer y ceisiadau perthnasol a roddwyd caniatâd iddynt gan arwain at flaen y siop yn cael effaith negyddol ar yr ardal.		
MI/42	Colled net o dir ar gyfer rhandiroedd		
MI/43	Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer rhandiroedd newydd ar safleoedd a ddyrannwyd a safleoedd addas eraill lle mae angen yn bodoli ac sy'n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu.		
MI/44	Nifer y datblygiadau ar gyfer 30 neu fwy o anheddau sy'n darparu darpariaeth ar y safle ar gyfer mannau agored yn unol â Pholisi CFS/11 a CDLI14 'Ymrwymadau Cynllunio'		
MI/45	Nifer y datblygiadau gyda llai na 30 annedd sy'n darparu swm gohiriedig ar gyfer mannau agored yn unol â Pholisi CFS/11 a CDLI4 'Ymrwymadau Cynllunio'.		
MI/46	Colled net o fannau agored		
MI/47	Ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer ardaloedd newydd o fannau agored mewn lleoliadau ar draws ardal y cynllun.		
MI/48	Ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer ardaloedd newydd ar gyfer tir claddu ar safleoedd a ddyrannwyd a mannau eraill lle mae angen yn bodoli.		
MI/49	Ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau ysgol newydd yn cydymffurfio ag egwyddorion datblygu.		
MI/50	Adolygu Astudiaeth Fanwerthu Conwy		
MI/51	Nifer y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden dan do (m ²) mawr a ganiateir mewn canol trefi fel % o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir o fewn Ardal y Cynllun.		

6 Yr Amgylchedd Naturiol

Dangosydd Monitro		2014/2015	2015/2016
MI/052	Caniatâd a roddwyd i ddatblygiad yr ystyrir sy'n cael effaith negyddol ar CGBLI (rhestr lawn) rhywogaethau/cynefinoedd.		
MI/053	Datblygiad sy'n effeithio'n andwyol ar RIG yn derbyn caniatâd yn groes i argymhellion y Swyddogion neu sefydliad archeolegol lleol		
MI/054	Datblygiad o fewn lletem las (ac eithrio un blaned, annedd menter wledig neu dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) a roddwyd yn groes i argymhellion y swyddogion.		
MI/055	Cynigion a gymeradwywyd heb Gytundebau Rheoli neu Gytundebau Rheoli heb eu gweithredu yn groes i argymhellion y Swyddogion.		

MI/056	Datblygiad sy'n fwy na 0.5 ha ar dir amaethyddol Gradd 2 a 3a nad yw'n cynnwys dyraniad CDLI.		
MI/057	Ceisiadau y rhoddwyd caniatâd iddynt yn groes i argymhellion Swyddogion lle mae effaith andwyol ar ATA wedi cael ei nodi.		
MI/058	Datblygiad o fewn Parth Arfordirol yn cael caniatâd yn erbyn argymhelliad swyddogion neu yn erbyn Polisi NTE/1.		
MI/059	Datblygiadau tyrbinau gwynt ar y tir o fewn Ardal Chwilio Strategol (AChS) yn cyflawni llai na 5MW yn groes i argymhelliad y swyddogion.		
MI/060	Cyfanswm capasiti a osodwyd o'r datblygiad tyrbinau gwynt ar y lan o fewn yr AChS.		
MI/061	Datblygiad tyrbinau gwynt ar y tir sy'n fwy na 5MW a gymeradwywyd y tu allan i AChS.		
MI/064	Ceisiadau wedi derbyn caniatâd yn erbyn cyngor y Swyddog neu gyngor y SAB i gynnwys Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy neu ddarpariaeth draenio digonol.		
MI/066	Datblygiadau newydd 1,000m ² neu 10 annedd ddim yn cyflwyno Strategaeth Cadwraeth Dŵr pan wneir cais gan swyddogion.		
MI/067	Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy.		
MI/068	Cynhyrchu CCA ar Dirlun, Mynediad a Dylunio		
MI/069	Cynhyrchu CCA ar ddatblygiad tyrbinau gwynt ar y tir		
MI/070	Datblygiad wedi'i ganiatáu mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 nad ydynt yn cwrdd pob prawf TAN15 neu argymhellion Cyfoeth Naturiol Cymru.		
MI/071	Capasiti datblygiadau Ynni Adnewyddadwy (MW) a osodwyd o fewn Ardaloedd Chwilio Strategol yn ôl math (TAN8).		
MI/072	Ceisiadau a roddwyd caniatâd iddynt yn arwain at gollu tir o fewn AGA, ACA neu SoDdGA yn erbyn cyngor swyddog neu gorff statudol.		
MI/073	Ceisiadau y rhoddwyd caniatâd iddynt yn erbyn cyngor y Swyddog neu Cyfoeth Naturiol Cymru a ystyrir bod potensial i achosi niwed i safle neu rywogaethau a warchodir.		
MI/074	Nifer o amodau Bioamrywiaeth heb eu gweithredu.		
MI/075	Unrhyw effaith negyddol a amlygwyd gan gorff statudol sy'n ymwneud â diraddio corff dŵr o fewn safle Ewropeaidd o ganlyniad i CDLI Conwy yn hyrwyddo datblygiad.		
MI/076	Unrhyw effaith negyddol a achosir mewn ardal awdurdod cyfagos a ddygwyd i sylw'r corff statudol yr ystyrir iddo gael ei achosi gan ddatblygiad neu Bolisi yn CDLI Conwy.		

7 Treftadaeth Ddiwylliannol

Dangosydd Monitro		2014/2015	2015/2016
MI/077	Apeliadau a enillwyd gan ACLI yn dilyn gwrthodiadau dan Bolisi CTH/3 sy'n ymwneud â datblygiad ag effaith andwyol ar adeiladau a strwythurau o bwysigrwydd lleol.		
MI/078	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd sy'n cael effaith andwyol ar safleoedd archeolegol hysbys a safleoedd heb eu cofrestru o bwysigrwydd archeolegol.		
MI/079	Tir a ddynodwyd fel ardaloedd cadwraeth		
MI/080	Nifer yr adeiladau neu strwythurau rhestredig sydd wedi eu dymchwel.		
MI/081	Ceisiadau am ddatblygiad sy'n effeithio ar adeiladau neu strwythurau rhestredig o fewn ardal gadwraeth a roddwyd yn erbyn argymhellion y Swyddog Cadwraeth.		
MI/082	Ceisiadau ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeiladau neu strwythurau o bwysigrwydd lleol a roddwyd yn erbyn argymhellion y Swyddog Cadwraeth.		
MI/083	Galluogi datblygiad ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â gofynion Polisi CTH/4 ac yn hwyluso cadwraeth ased hanesyddol.		
MI/084	Cynhyrchwyd CCA ar Faterion Cyffredinol o fewn Ardaloedd Cadwraeth Preswyl a Masnachol.		
MI/087	Atodiad i'r Canllawiau Cynllunio Atodol Ardal Gadwraeth – Conwy		
MI/088	Atodiad i'r Canllawiau Cynllunio Atodol Ardal Gadwraeth - Ardaloedd Cadwraeth sy'n weddill		
MI/090	Nifer y safleoedd ar hap wedi eu darparu mewn Ardaloedd Strategaeth Datblygu Trefol a Gwledig.		
MI/091	Ceisiadau wedi eu cyflwyno gyda Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol, Asesiadau Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn unol â throthwy polisi yn CTH/5		
MI/092	Ceisiadau ar safleoedd tai a ddyrannwyd yn Abergele a Llanrwst, a safle defnydd cymysg yn Nolgarrog, a gyflwynwyd gyda 'Datganiad Lliniaru Iaith Gymraeg.		
MI/093	Asesu effeithiolrwydd Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol, Asesiadau Effaith Cymunedol ac Ieithyddol a Datganiadau Lliniaru wedi eu cyflwyno.		

8 Strategaeth Cludiant Cynaliadwy

Dangosydd Monitro		2014/2015	2015/2016
MI/095	Datblygiad wedi'i gymeradwyo heb Asesiad Cludiant, Cynllun Teithio neu Archwiliad Diogelwch ar y Ffyrdd yn groes i argymhelliad Swyddog neu ymgynghorydd statudol.		
MI/096	Datblygiad wedi'i gymeradwyo heb gyfraniad ariannol tuag at welliannau yn yr isadeiledd trafniadaeth yn groes i argymhelliad Swyddog neu ymgynghorai statudol.		
MI/097	Datblygiad wedi'i gymeradwyo yn groes i argymhelliad Swyddog neu ymgynghorydd statudol fyddai'n effeithio'n andwyol ar y defnydd o gyfleusterau cludo nwyddau ar reilffyrdd a ddiogelir yng Nghyffordd Llandudno a Phenmaenmawr.		

MI/098	Datblygiad wedi'i gymeradwyo yn groes i argymhelliad Swyddog neu ymgynghorai statudol sy'n cael effaith negyddol ar hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, gan gynnwys manau agored, rhandiroedd, iechyd, addysg a hamdden.		
--------	--	--	--

9 Strategaeth Gwastraff a Mwynau

Dangosydd Monitro		2014/2015	2015/2016
MI/099	Maint y prif agregau a dynnwyd o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau a fynegir fel % o gyfanswm y capasiti angenrheidiol fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.		
MI/100	Maint y prif agregau a dynnwyd o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau a fynegir fel % o gyfanswm y capasiti angenrheidiol fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.		
MI/101	Nifer y caniatâd cynllunio a gymeradwywyd ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn unol â Pholisi MWS/2.		
MI/102	Nifer o ganiatâd cynllunio wedi'i roi yn y dynodiadau diogelu craig galed a thywod a graean ddim yn unol â Pholisi MWS/3.		
MI/103	Nifer o geisiadau cynllunio a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau amhriodol, e.e. anheddau/gwaith mwynau, a roddwyd yn y Dynodiadau Parth Clustogi Chwarel a Pharth Clustogi Tirlenwi.		
MI/104	Cyfraddau ar gyfer ailgylchu, paratoi i aildddefnyddio a chompostio yn cael ei gymharu â thargedau cenedlaethol (Mesur Gwastraff Cymru 2010)		
MI/105	Maint y capasiti i reoli gwastraff a ddatblygwyd yn Ardal y Cynllun, neu y tu allan i Ardal y Cynllun i ymdrin â gwastraff sy'n codi yng Nghonwy		

Atodiad 2 – Darpariaeth Dyraniadau'r CDLI

Mae'r tabl isod yn nodi statws datblygu presennol holl ddyraniadau'r CDLI.

Cyf Safle	Safle	Statws	
Dyraniadau tai			
434	Plas yn Dre, Llandudno	Wedi'i gwblhau	40 annedd
31	Ger Glanafon, Llanfairfechan	Wedi'i gwblhau	28 annedd
439	Clwb Cymdeithasol / Clwb Ieuencid, Cyffordd Llandudno	Rhodddwyd caniatâd ar ran o'r safle, 10 o anheddau yn cael eu hadeiladu	40 annedd
67	Glyn Farm, Bae Colwyn	Rhodddwyd caniatâd cynllunio	39 annedd
79/80/ 81/82/E3	De-ddwyrain Abergele	Rhodddwyd caniatâd ar ran o'r safle ar gyfer 100 annedd (yn cael eu hadeiladu) Mabwysiadwyd Briff Datblygu CCA	600 annedd
287/458/ 459	Bryn Hyfryd/Ffordd Tan yr Ysgol, Llanrwst	Briff Datblygu CCA ar waith	150 annedd
71/348	Fferm Neuadd Dinarth, Llandrillo yn Rhos	Mabwysiadwyd Briff Datblygu CCA	80 annedd
449	Plas Penrhyn, Bae Penrhyn	Yn eiddo i GBSC; cymeradwywyd gwaredu gan y Cabinet	30 annedd
496	Tŷ Mawr, Hen Golwyn	Yn eiddo i GBSC; Briff datblygu CCA ar waith	255 annedd
494	Ysgol y Graig, Hen Golwyn	Yn eiddo i GBSC; annhebygol y bydd y safle yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol agos	30 annedd
247	Dinerth Road, Llandrillo yn Rhos	Yn eiddo i Lywodraeth Cymru; y safle wedi'i feddiannu gan swyddfeydd CBSC – i'w gwagio yn y gaeaf 2018	65 annedd
217	Cyfnewidfa BT, Bae Colwyn	Annhebygol o fod ar gael yn y tymor byr	70 annedd
488	Lawson Road, Bae Colwyn	Dim cynnydd hysbys	35 annedd
406	Ffordd Pencoed, Llanddulas	Dim cynnydd hysbys	20 dwellings
403	I'r de o'r Felin, Llanddulas	Dim cynnydd hysbys	20 annedd
160	Yn gyfagos at Ysgol Cynfran, Llysfen	Yn eiddo i GBSC	40 annedd
87	Ger yr hen reithordy, Llysfen	Dim cynnydd hysbys	30 annedd
91/284	Ffordd Llanelwy, Betws yn Rhos	Dim cynnydd hysbys	10 annedd
92/274	Minafon, Betws yn Rhos	Dim cynnydd hysbys	10 annedd
470	Tan y Ffordd, Dolgarrog	Rhodddwyd caniatâd cynllunio	12 annedd
60	Oddi ar Heol Martin, Eglwysbach	Dim cynnydd hysbys	10 annedd
454	The Smithy, Llanfair TH	Dim cynnydd hysbys	25 annedd
289	I'r gogledd o Lansannan	Dim cynnydd hysbys	25 annedd
429	Dexter Products, Llanfairfechan	Dim cynnydd hysbys	15 annedd
521	Adeilad West Coast, Llanfairfechan	Rhodddwyd caniatâd cynllunio ar ran	10 annedd
277	Coed Digain, Llangernyw	Dim cynnydd hysbys	25 annedd

Cyf Safle	Safle	Statws		
14	Woodland, Cyffordd Llandudno	Cais i'w gyflwyno'n fuan ar gyfer 52		75 annedd
56	Oddi ar Ffordd Ysguborwen, Dwygyfylchi	Yn eiddo i GBSC		15 annedd
Dyraniadau Cyflogaeth				
CR16	I'r Gogledd- Ddwyrain o'r Cyn Iard Nwyddau, Cyffordd Llandudno	Dim cynnydd hysbys		
452	Ffordd Penmaen, Conwy	Yn eiddo i GBSC		
E2	Parc Busnes Abergele	Dim cynnydd hysbys		
CR34	Cyn Iard Nwyddau, Llandudno	Dim cynnydd hysbys		
MS9	Tir yng Ngorsaf Betrol Orme View, Dwygyfylchi	Dim cynnydd hysbys		
R47	Tir ger Neuadd Goffa Dolgarrog	Dim cynnydd hysbys		
R44	Iard The Old Stag, Llangernyw	Dim cynnydd hysbys		
R30	Tir yn Llansannan	Dim cynnydd hysbys		
Dyraniadau Aml-ddefnydd				
MS25	Gwaith Alwminiwm, Dolgarrog	Tai, Twristiaeth	Cyfleuster hamdden, Surf Snowdonia, wedi'i ddatblygu ar draws y safle cyfan – annhebygol o adeiladu tai	
E2	Parc Busnes Abergele	Cyflogaeth, Tai	Rhoddwyd caniatâd cynllunio	158 annedd
176	Esgyrn, Cyffordd Llandudno	Cyflogaeth, Tai, Rhandiroedd	Datblygiad preswyl wedi'i gwblhau Datblygiad cyflogaeth yn cael ei adeiladu yn rhannol	128 annedd
270	Top Llan Road, Glan Conwy	Tai, Man Agored	Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer rhan o'r safle. Briff datblygu CCA ar waith.	80 annedd
455	Safle A i'r gogledd o Lanrwst	Rhandiroedd, Tai	Dim cynnydd hysbys	50 annedd
53	I'r gogledd o Groesffordd, Dwygyfylchi	Rhandiroedd, Tai	Wrthi'n cael eu hadeiladu	46 annedd
453	Tir yn wynebu'r B5105, Cerrigydrudion	Cyflogaeth, Tai	Yn eiddo i GBSC; Briff datblygu CCA wedi'i fabwysiadu	20 annedd
Dyraniadau eraill				
E24	Cyn safle tirlenwi, Gofer, Abergele	Gwastraff		
E25b	Chwarel Llanddulas	Gwastraff		
N/A	Ger Mynwent Penmaenmawr	Tir Claddu		
N/A	Ger Mynwent Llanrwst	Tir Claddu		
N/A	I'r gorllewin o Gwrych Lodge, Abergele	Rhandiroedd		

Cyf Safle	Safle	Statws	
Safleoedd Tai at Raid			
384	I'r Gorllewin o Barc Penmaen	Dim cynnydd hysbys	45 annedd
135	Ffordd Conwy, Penmaenmawr	Dim cynnydd hysbys	15 annedd
457	Safle C i'r gogledd ddwyrain o Lanrwst	Dim cynnydd hysbys	70 annedd
78	Ffordd Llanfair, Abergele	Dim cynnydd hysbys	100 annedd
37/38	Oddi ar Lôn Derwen, Bae Penrhyn	Dim cynnydd hysbys	175 annedd
SR85	Ffordd Nant y Gamar, Llandudno	Dim cynnydd hysbys	60 annedd
SR43	Ffordd Henryd, Gyffin, Conwy	Dim cynnydd hysbys	10 annedd
502	Ffordd Llysfaen, Hen Golwyn	Dim cynnydd hysbys	20 annedd
67	Glyn Farm, Bae Colwyn	Dim cynnydd hysbys	27 annedd
Safleoedd Cyflogaeth at Raid			
MS9B	Tir yng Ngorsaf Betrol Orme View, Dwygyfylchi	Amherthnasol	

Sylwer: Nifer anheddau mewn print bras yn seiliedig ar ganiatâd cynllunio lle rhoddwyd. Fel arall mae'r ffigurau yn dod o nifer yr anheddau a ddyrannwyd

Atodiad 3 – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Polisi CDLI

1 Egwyddorion Datblygu

Polisi	Sylw
DP/1 – Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy	Adolygu – tebygol y bydd angen newidiadau ar sail diwygiadau mewn rhannau eraill o'r CDLI
DP/2 – Dull Strategol Trosfwaol	Adolygu – bydd angen asesiad newydd o gyfleusterau i bennu a yw'r hierarchaeth anheddau'n dal yn briodol
DP/3 – Hyrwyddo Ansawdd Dylunio a Lleihau Trosedd	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
DP/4 – Meini Prawf Datblygu	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
DP/5 – Isadeiledd a Datblygiadau Newydd	Adolygu – efallai y bydd angen newid modd o sicrhau gofynion isadeiledd unwaith y bydd yr adolygiad ar yr Ardoll Seilwaith Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi
DP/6 – Polisiâu a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol	Gweithredu'n effeithiol
DP/7 – Prif Gynlluniau a Gwerthusiadau Cymunedol	Diwygio i gynnwys y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ynglŷn â Chynlluniau Lleodedd
DP/8 – Prif Gynllun Adfywio Trefol Bae Colwyn	Adolygu i adlewyrchu'r sail dystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg

2 Tai

Polisi	Sylw
HOU/1 – Diwallu'r Angen am Dai	Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
HOU.2 – Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol	Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
HOU/3 – Datblygiadau Tai Fesul Cyfnod	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
HOU/4 – Dwysedd Tai	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
HOU/5 – Cymysgedd Tai	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
HOU/6 – Safleoedd Eithriedig i Dai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
HOU/7 – Safleoedd dan Berchnogaeth y Cyngor a'r Llywodraeth yn Ardal y Cynllun	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
HOU/8 – Cofrestr Daliadaeth Tir	Adolygu'r polisi i asesu a oes angen amdano bellach
HOU/9 – Diwallu Anghenion Sipsiwn a Theithwyr am Safleoedd	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
HOU/10 – Tai Amlfeddiannaeth a Fflatiau Hunangynhwysol	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
HOU/11 – Cartrefi Gofal Preswyl a Thai Gofal Ychwanegol	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
HOU/12 – Ailddefnyddio ac Addasu Adeiladau Gwledig Diangen ar gyfer Defnydd Preswyl	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau

3 Cyflogaeth

Polisi	Sylw
EMP/1 – Diwallu Anghenion Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiant B1, B2 a B8.	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
EMP/2 – Dyrannu Safleoedd Datblygu Cyflogaeth Swyddfeydd a Diwydiant B1, B2 a B8 Newydd	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
EMP/3 – Datblygiad Swyddfeydd a Diwydiant B1, B2 a B8 ar Safleoedd Heb eu Dyrannu	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
EMP/4 – Diogelu Safleoedd Swyddfeydd a Diwydiant B1, B2 a B8.	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
EMP/5 – Ardaloedd Gwella ar gyfer Swyddfeydd a Diwydiant	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
EMP 6- Ailddefnyddio ac Addasu Adeiladau Gwledig Diangen	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau

4 Twristiaeth

Polisi	Sylw
TOU/1 – Twristiaeth Gynaliadwy	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
TOU/2 – Datblygiadau Twristiaeth a Hamdden Cynaliadwy Newydd	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
TOU/3 – Ardal Llety Gwyliau	Diwygio – yn unol â strategaeth twf twristiaeth
TOU/4 – Safleoedd Cabannau Gwyliau, Carafanau a Gwersylla	Diwygio – yn unol â strategaeth twf twristiaeth

5 Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol

Polisi	Sylw
CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol	Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf, gan gynnwys unrhyw ddyraniadau newydd y mae eu hangen ac adlewyrchu newid mewn polisi cenedlaethol. Diwygio i gael gwared â safleoedd sydd wedi'u cwblhau
CFS/2 – Hierarchaeth Adwerthu	Adolygu i gynnwys canfyddiadau'r Astudiaeth Fanwerthu newydd ac adlewyrchu newidiadau i'r polisi cenedlaethol
CFS/3 – Prif Ardaloedd Siopa	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau. Efallai y bydd angen diwygio'r CCA i adlewyrchu newidiadau i'r polisi cenedlaethol
CFS/4 – Parthau Siopa	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau. Efallai y bydd angen diwygio'r CCA i adlewyrchu newidiadau i'r polisi cenedlaethol
CFS/5 – Parciau Adwerthu	Diwygio i adlewyrchu newidiadau i ganiatâd cynllunio a roddwyd yn ystod cyfnod y cynllun hyd yma
CFS/6 – Diogelu Cyfleusterau Cymunedol y Tu Allan i'r Ganolfan Isranbarthol a Chanol Trefi	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau

CFS/7 – Dyluniad Blaen Siopau	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
CFS/8 – Diogelwch Blaen Stryd Siopa	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
CFS/9 – Diogelu Lotments	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
CFS/10 – Lotments Newydd	Diwygio i gael gwared â safleoedd sydd wedi'u cwblhau. Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf gan gynnwys dyrannu safleoedd newydd os oes angen
CFS/11 – Datblygu a Mannau Agored	Diwygio i gynnwys canfyddiadau yr Asesiad ar Fannau Agored a Safonau diweddaraf Meysydd Chwarae Cymru. Gall Ardoll Isadeiledd Cymunedol effeithio sut y ceir manau agored mawr
CFS/12 – Diogelu Mannau Agored Presennol	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
CFS/13 – Dyrannu Mannau Agored Newydd	Adolygu i gynnwys canfyddiadau'r Asesiad newydd ar Fannau Agored
CFS/14 – Dyraniadau Tir Claddu Newydd	Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf gan gynnwys unrhyw ddyraniadau newydd y mae eu hangen
CFS/15 – Cyfleusterau Addysg	Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf gan gynnwys unrhyw ddyraniadau newydd y mae eu hangen

6 Yr Amgylchedd Naturiol

NTE/1 – Yr Amgylchedd Naturiol	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
NTE/2 – Lletemau Glas a Diwallu Anghenion Datblygu'r Gymuned	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
NTE/3 – Bioamrywiaeth	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
NTE/4 – Y Dirwedd a Diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
NTE/5 – Yr Ardal Arfordirol	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
NTE/6 – Effeithlonrwydd Ynni a Thechnolegau Adnewyddadwy mewn Datblygiadau Newydd	Diwygio i gynnwys mwy o dechnolegau
NTE/7 – Datblygiadau Tyrbinau Gwynt ar y Tir	Diwygio i addasu'r canllawiau mewn perthynas â chymesuredd
NTE/8 – Systemau Draenio Cynaliadwy	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
NTE/9 – Draenio Dŵr Budr	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
NTE/10 – Cadwraeth Dŵr	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau

7 Treftadaeth Ddiwylliannol

Polisi	Sylw
CTH/1 – Treftadaeth Ddiwylliannol	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
CTH/2 – Datblygu Sy'n Effeithio ar Asedau Treftadol	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf

CTH/3 – Adeiladau ac Adeileddau o Bwysigrwydd Lleol	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
CTH/4 – Hwyluso Datblygu	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
CTH/5 – Yr Iaith Gymraeg	Diwygio i ystyried y sail dystiolaeth ddiweddaraf a chanllawiau cenedlaethol wedi'u diweddarau

8 Cludiant Cynaliadwy

Polisi	Sylw
STR/1 – Cludiant Cynaliadwy, Datblygu a Hygyrchedd	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
STR/2 – Safonau Parcio	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
STR/3 – Lliniaru Effaith Teithio	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
STR/4 – Teithio Heb Fodur	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
STR/5 – System Cludiant Cynaliadwy Integredig	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
STR/6 – Cludo Nwyddau ar y Rheilffordd	Dileu

9 Mwynau a Gwastraff

Polisi	Sylw
MWS/1 - Mwynau a Gwastraff	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/2 - Mwynau	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
MWS/3 – Diogelu Creigiau Caled a Thywod ac Adnoddau Graean	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
MWS/4 – Lleiniau Diogelu Chwareli	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau
MWS/5 – Cynigion ar Gyfer Rheoli Gwastraff	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/6 – Lleoliadau ar Gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/7 – Defnyddio Tir Diwydiannol ar Gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff	Diwygio i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf
MWS/8 – Llain Ddiogelu Tirlenwi	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen mân ddiwygiadau

O.N. Nid yw'r asesiad uchod yn derfynol a bydd mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i addasu polisiâu lleol yn rhan o'r broses o adolygu'r cynllun, gan gynnwys ystyried a oes eu hangen ochr yn ochr â pholisiâu rheoli datblygiadau cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Atodiad 4 – Rhestr Grynhoi o'r Ymchwil Pellach Angenrheidiol

- BP01 – Cynlluniau a Strategaethau Cysylltiedig
- BP02 – Amcanestyniadau Poblogaeth a Theuluoedd
- BP03 – Adroddiad Dewisiadau Lefelau Twf
- BP04 – Cyflenwad Tir ag Gyfer Tai
- BP05 – Astudiaeth Argaeledd Tir ar Gyfer Tai
- BP06 – Cymysgedd Tai
- BP07 – Asesiad marchnad Tai Lleol
- BP08 – Hierarchaeth Aneddiadau ac Asesiad Ffiniau Anheddiad
- BP09 – Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy
- BP10 – Gwerthusiad Cynladwyedd (GC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAC)
- BP11 – Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- BP12 – Asesiad o Letemau Glas
- BP13 – Adroddiad Monitro Tir Cyflogaeth
- BP14 – Astudiaeth Tir Cyflogaeth
- BP15 – Astudiaeth o Adwerthu
- BP16 – Prif Ardaloedd Adwerthu, Ardaloedd Adwerthu Eilaidd ac Astudiaeth Hierarchaeth
- BP17 – Asesiad Risg Llifogydd Strategol Conwy
- BP18 – Astudiaeth Prif Ardaloedd Llety Gwyliau
- BP19 – Asesiad Gofod Agored
- BP20 – Rheoli Gwastraff
- BP21 – Asesiad o'r Gallu i Ddarparu Safleoedd
- BP22 – Asesiad Galw am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
- BP23 – Adroddiad Sail Prif Gynllun Bae Colwyn
- BP24 – Adroddiad Moderneiddio Ysgolion Cynradd Cyngor Sir Conwy
- BP25 – Adroddiad Galw a Chyflenwad am Safleoedd Gerddi Ar Osod
- BP26 – Ardaloedd Tirwedd Arbennig
- BP27 – Yr Amgylchedd Hanesyddol
- BP28 – Diogelu Adnoddau Agregau
- BP29 – Cynllun Datblygu Graddol
- BP30 – Capasiti'r Diwydiant Adeiladu Tai
- BP31 – Adroddiad Galw a Chyflenwad Tiroedd Claddu
- BP32 – Yr Iaith Gymraeg
- BP33 – Papur Tybiaethau Hyfywedd Safle
- BP34 – Strategaeth Twf Twristiaeth a Hamdden
- BP35 – Cyfrifo Anghenion Tai Fforddiadwy
- BP36 – Adroddiad Opsiynau Dosbarthu Twf
- BP37 – Astudiaeth Trafnidiaeth Abergele
- BP38 – Cydweithio â Chynghorau Cyfagos
- BP39 – Effaith Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Iechyd/Gofal Sylfaenol
- BP40 – Effaith Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Addysg
- BP41 – Arfarniadau Cymunedol
- BP42 – Asesiad Sgiliau Addysg

Gall y rhestr hon newid o ganlyniad i dystiolaeth newydd sy'n codi